

# Cyrsiau rhan-amser ar gyfer oedolion

---

## 2024-25



# Croeso



Mae eleni'n garreg filltir bwysig yn hanes addysg oedolion ym Mhrifysgol Caerdydd. Ar ôl bod yn Heol Senghennydd ers dros 20 mlynedd, rydyn ni bellach wedi symud i 50-51 Plas y Parc, sydd ar ganol y campws. Mae ein cyfleusterau addysgu modern yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ragori ym maes addysgu a dysgu, yn ogystal â chynnig amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar i fyfyrwyr newydd ac i fyfyrwyr sy'n dychwelyd.

Gan ein bod ni bellach wedi cofleidio ein henw newydd – Dysgu Gydol Oes – ein nod yw cynnig cyfleoedd i ddysgwyr o bob oed a chefnidir, boed hynny yn yr ystafell ddosbarth neu ar-lein. Rydyn ni'n parhau i gynnig ystod eang o gyrsiau, o ecoleg i lèn gwerin, ac o ysgrifennu creadigol i reoli prosiectau.

P'un a ydych chi'n dewis astudio gyda ni er mwyn symud ymlaen at radd trwy'r rhaglen Llwybrau at Radd, am ddatblygu sgiliau ar gyfer y gweithle, neu am ddilyn cwrs i fwynhau dysgu rhywbeth newydd, bydd croeso mawr i chi gyda Dysgu Gydol Oes.

Cofion gorau

**Dr Michelle Deininger**  
**Cyfarwyddwr Dros Dro, Dysgu Gydol Oes**

# Cymwysterau

**Dangoswch eich potensial drwy ennill cymwysterau, gwella sut rydych yn astudio, gwella eich CV a gwireddu eich dyheadau personol.**

Pa gymwysterau y gallwch eu hennill gyda ni?

► **Tystysgrif Addysg Barhaus**

Gyda 60 credyd ar Lefel 4 neu Lefel 5 mewn un maes pwnc

► **Tystysgrif Addysg Uwch**

Gyda 120 credyd ar Lefel 4 neu Lefel 5

► **Diploma Addysg Uwch**

Gyda 120 credyd ar Lefel 5 wedi'u hennill mewn blociau astudio 60 credyd wedi'u diffinio ymlaen llaw (pynciau sydd ar gael ar hyn o bryd: Cyfrifiadura, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg a Sbaeneg)

► **Cymwysterau iaith rhyngwladol**

fel DELF-DALF, DELE, Goethe Zertifikat, CILS, JLPT a HSK

# Astudiwch yn rhad ac am ddim

**Ydych chi erioed wedi bod eisiau astudio yn y brifysgol, ond heb gael y cyfle?**

Os ydych yn ofalwr, yn gadael gofal, os ydych yn berson anabl, yn derbyn budd-daliadau penodol yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn chwilio am swydd ar hyn o bryd, yn berson du neu o gefndir lleiafrifoedd ethnig, wnaeth eich rhieni ddim astudio yn y brifysgol neu os ydych yn byw mewn ardal lle nad oes llawer o bobl yn cael mynediad at y brifysgol yn draddodiadol, gallech fod yn gymwys ar gyfer y cynllun hepgor ffioedd dysgu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

# Llwybrau at radd



**Mae'r llwybrau wedi'u hanelu at y rhai sydd â phrofiad bywyd ac sydd am astudio ar gyfer eu gradd gyntaf ym Mhrifysgol Caerdydd. Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan unigolion sydd ddim efallai wedi cael addysg ffurfiol ers sawl blwyddyn. Dyma rai rhesymau dros ddilyn llwybr astudio:**

- ▶ Maen nhw'n eich paratoi i astudio ar lefel gradd, a byddwch yn cael eich cefnogi'n llawn pan fyddwch yn barod i wneud cais.
- ▶ Mae'r cyrsiau'n cael eu haddysgu'n rhan-amser gyda'r nos neu ar benwythnosau.
- ▶ Mae'r dosbarthiadau'n fach, yn gyfeillgar ac yn gefnogol.
- ▶ Cewch gyngor personol gan eich tiwtor a'ch Darlithydd Cydlynol.
- ▶ Gall cymorth ariannol fod ar gael i'ch helpu i dalu ffi'r cwrs.
- ▶ Gallwch ddilyn llwybr astudio ar gyflymder sy'n gyfleus i chi – mae llawer o fyfyrwyr yn gwneud naill ai 30 neu 60 credyd bob blwyddyn academiaidd.

## Rydyn ni'n cynnig y pynciau canlynol:

- ▶ **Rheoli Busnes, Marchnata a Chyfrifeg** (tudalen 5)
- ▶ **Saesneg, Llenyddiaeth Saesneg, Ysgrifennu Creadigol ac Athroniaeth** (tudalen 15)
- ▶ **Gofal Iechyd** (tudalen 62)
- ▶ **Hanes, Archaeoleg a Chrefydd** (tudalen 26)
- ▶ **Cysylltiadau Rhyngwladol a Gwleidyddiaeth** (tudalen 52)
- ▶ **Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant** (tudalen 17)
- ▶ **Y Gyfraith** (tudalen 50)
- ▶ **Ffarmacoleg Feddygol** (tudalen 57)
- ▶ **Cerddoriaeth** (tudalen 24)
- ▶ **Ieithoedd Modern** (tudalen 45)
- ▶ **Optometreg** (tudalen 60)
- ▶ **Y Gwyddorau Cymdeithasol** (tudalen 70)
- ▶ **Cyfieithu** (tudalen 47)
- ▶ **Hylendid Deintyddol** (tudalen 58)

[www.caerdydd.ac.uk/dysgu](http://www.caerdydd.ac.uk/dysgu)

# Cynnwys

**Rhesymau i astudio gyda ni**

2

**Busnes a Rheoli**

3

**Astudiaethau Cyfrifiadurol**

7

**Y Dyniaethau**

Ysgrifennu Creadigol, Llenyddiaeth, y Cyfryngau, Athroniaeth, Astudiaethau Hanesyddol a Cherddoriaeth

9

**Ieithoedd Modern**

Arabeg, Tsieinëeg, Ffrangeg, Almaeneg, Groeg, Eidaleg, Japaneg, Portiwgaleg, Rwseg, Sbaeneg, Wcreineg a Chyfieithu ar y Pryd

31

**Y Gyfraith**

49

**Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol**

51

**Gwyddoniaeth a'r Amgylchedd**

53

**Hylendid Deintyddol**

58

**Optometreg**

60

**Gofal Iechyd**

62

**Astudiaethau Cymdeithasol**

66

**Sut i Ymrestru**

73

**Manylion cyswllt a map**

74

# Rhesymau dros astudio gyda ni

Bydd ein pynciau hynod ddiddorol yn eich herio ac yn eich ysbrydoli. Dyma flas o'r hyn y gallwch chi ei fwynhau pan fyddwch chi'n astudio gyda Dysgu Gydol Oes

## Cartref newydd sbon i Dysgu Gydol Oes

Mae ein hadeilad newydd yn un carbon isel, a cheir pypiau gwres ffynhonnell aer yn ogystal â phaneli solar. Yn yr adeilad, bydd modd gweithio, astudio ac addysgu mewn ffordd gyfforddus, a'r nod yw creu'r cyd-destun perffaith i groesawu ac annog myfyrwyr sydd efallai wedi bod i ffwrdd o'r ystafell ddoesbarth ers talwm. Bydd yr adeilad modern hwn yn ysbrydoli ac yn cefnogi ein myfyrwyr yn eu haddysg ran-amser a'u llwybrau at astudio gradd.

## Dysgu agored, hamddenol a chynhwysol

Rydyn ni'n annog ac yn croesawu pawb i astudio gyda ni. Does dim gofynion mynediad ar gyfer llawer o'n cyrsiau. Y cyfan sydd ei angen arnoch yw diddordeb yn y pwnc a pharodrwydd i'w astudio yng nghwmni myfyrwyr eraill. Gallwch ddisgwyl trafodaethau ysgogol a theimlad cryf o gymuned.

## Astudio hyblyg a hygyrch

Mae cyrsiau'n cael eu haddysgu yn ystod y dydd, gyda'r nos, ar benwythnosau ac ar-lein i'w gwneud mor hawdd â phosibl i chi eu gwneud. Rydym wedi ein lleoli yng nghanol Caerdydd, ac mae cysylltiadau trafniadaeth da ar gael.

Rydyn ni'n falch o drafod gofynion mynediad penodol a allai fod gennych. Cysylltwch â'n Cyngorydd Anabledd os oes gennych bryderon ynghylch mynediad i'r adeilad neu os oes angen cymhorthion dysgu arnoch.

**E-bostiwrch [learn@caerdydd.ac.uk](mailto:learn@caerdydd.ac.uk)**

## Ennill credydau a chymwysterau

Mae ein llwybrau at radd yn cynnig llwybr astudio rhan-amser at radd o Brifysgol Caerdydd (gweler y tu mewn i'r clawr).

Pan fyddwch wedi cwblhau eich asesiadau'n llwyddiannus, byddwch yn ennill credydau tuag at eich cymhwyster. Mae'r credydau hyn yn gynllun cenedlaethol, sy'n golygu eu bod yn cael eu cydnabod gan y rhan fwyaf o brifysgolion. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol i'r rhai sydd am astudio ar gyfer gradd.

## Cymorth astudio ychwanegol

Bydd eich tiwtor yn eich cefnogi a'ch annog wrth i chi astudio. Mae gennyn ni adnoddau ar-lein hefyd i'ch helpu i gynllunio a gwneud eich asesiadau:

- ▶ Y Canllaw Dysgu
- ▶ Llawlyfr i Fyfrwyr

Mae'r adnoddau hyn ar ein gwefan.

## Llyfrgelloedd

Wrth gofrestru i wneud cwrs, rydych yn dod yn un o fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd, a byddwch yn un o'i myfyrwyr nes eich bod wedi gorffen astudio. O ganlyniad, mae llwyth o adnoddau ar gael i chi:

- ▶ Llyfrgelloedd – gallwch ddefnyddio'r rhan fwyaf o llyfrgelloedd y Brifysgol. Bydd llyfrau, papurau newydd, cylchgronau, cyfnodolion, Cryno Ddisgiau, DVDs ac adnodd chwilio'r llyfrgell ar-lein, ar gael i chi eu defnyddio. Gallwch fenthgryd hyd at ddeg eitem ar y tro. E-bostiwrch eich cadarnhad ymrestru a llun ar ffurf pasbort i **[librarymembership@caerdydd.co.uk](mailto:librarymembership@caerdydd.co.uk)** i gael eich cerdyn adnabod/llyfrgell neu i gysylltu â ni gydag unrhyw ymholiadau ynghylch gwasanaethau'r llyfrgell.

Bydd angen i chi ddefnyddio eich cerdyn adnabod/llyfrgell i gael mynediad i 50-51 Plas y Parc. Ewch â'ch cerdyn adnabod/llyfrgell i 50-51 Plas y Parc gyda phrawf eich bod wedi ymrestru, a bydd y tim ar y dderbynfa yn diweddarau eich cerdyn i chi gael mynediad i'r adeilad.

## Cyfleusterau

- ▶ Cyfrif cyfrifiadur – Bydd cyfrif cyfrifiadur yn cael ei greu i chi'n awtomatig pan fyddwch wedi cofrestru. Bydd eich manylion mewngofnodi'n cael eu hanfon i'r cyfeiriad e-bost y gwnaethoch ei roi adeg cofrestru. O ganlyniad, bydd gwahanol gymwysterau a mathau o feddalwedd ar gael i chi.

## Cyfraddau a gostyngiadau i fyfyrwyr

- ▶ Defnydd llawn o gyfleusterau chwaraeon y Brifysgol am ffi ostyngol.

## Gostyngiadau i staff a myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

Mae staff a myfyrwyr amser llawn Prifysgol Caerdydd yn gymwys i gael gostyngiad ar ein cyrsiau rhan-amser ac yn talu'r ffi ratach.

# Busnes a Rheoli

Darlithydd Cydlynol: **Dr Sara Jones**  
Ffôn: **029 2087 5268**  
E-bost: **JonesSJ15@caerdydd.ac.uk**



## Sgiliau Rheoli Hanfodol

**Ffi o £196.00** (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Jemma Cox

Mae'r cwrs cynhwysfawr hwn yn rhyngweithiol iawn, ac yn rhoi cwmpas rhagorol o sgiliau, technegau a gwybodaeth hanfodol ar gyfer llwyddo fel rheolwr. Mae'r cwrs wedi'i lunio ar gyfer myfyrwyr sydd am fod yn rheolwyr neu'n oruchwylwyr, ond heb hyfforddiant ffurfiol ym maes rheoli. Mae'r cwrs hwn yn canolbwyntio ar hyblygrwydd a'r gallu i weithio mewn amgylchedd Prydeinig, Ewropeaidd a byd-eang.

**5 o gyfarfodydd bob pythefnos**  
**Nos Fawrth rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 1 Hydref 2024**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
**Yn ogystal â 10 awr ar-lein**  
10 Credyd, Lefel 4  
**BAM24A4924A**

## Sgiliau Arwain Hanfodol

**Ffi o £196.00** (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Jemma Cox

Mae'r cwrs cynhwysfawr hwn yn rhyngweithiol iawn, ac yn rhoi cwmpas rhagorol o sgiliau, technegau a gwybodaeth hanfodol ar gyfer llwyddo fel rheolwr. Mae'r cwrs wedi'i lunio ar gyfer myfyrwyr sydd am fod yn rheolwyr neu'n oruchwylwyr, ond heb hyfforddiant ffurfiol ym maes rheoli. Mae'r cwrs hwn yn canolbwyntio ar hyblygrwydd a'r gallu i weithio mewn amgylchedd Prydeinig, Ewropeaidd a byd-eang. Caiff y cwrs hwn ei addysgu drwy gymysgedd o ddysgu ar-lein a dysgu yn yr ystafell ddosbarth.

**5 o gyfarfodydd bob pythefnos**  
**Nos Fawrth rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 21 Ionawr 2025**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
**Yn ogystal â 10 awr ar-lein**  
10 Credyd, Lefel 4  
**BAM24A5176A**

## Rheoli Cyllid I

**Ffi o £196.00** (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Dr Petros Makris

Mae angen i reolwyr a chyflogwyr ar bob lefel fod yn gymwys ar lefel rheoli ariannol. Mae'r cwrs hwn wedi'i lunio i helpu myfyrwyr i ddeall yr agweddau ariannol sydd eu hangen i reoli busnes/adran. Does dim angen unrhyw wybodaeth flaenorol. **Cofrestrwch ymlaen llaw, os gwelwch yn dda.**

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Iau rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 3 Hydref 2024**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
10 Credyd, Lefel 4  
**BAM24A1361A**

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Iau rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 16 Ionawr 2025**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
10 Credyd, Lefel 4  
**BAM24A1361B**

## Rheoli Cyllid II

**Ffi o £196.00** (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Dr Petros Makris

Mae'r cwrs hwn yn darparu astudiaeth bellach o ddatganiadau ariannol, cynllunio a rheoli ariannol, a thechnegau rheoli arian eraill. Dylai myfyrwyr fod wedi cwblhau **Rheoli Cyllid I**, neu fod â gwybodaeth flaenorol am gyfrifeg. **Ymrestrwch ymlaen llaw, os gwelwch yn dda.**

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Lun rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 20 Ionawr 2025**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
10 Credyd, Lefel 4  
**BAM24A2861A**





## Technoleg a'r Byd Digidol

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

- Dr Jo Smedley**  
 Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno'r gweithiwr busnes proffesiynol uchelgeisiol i dri maes, sy'n cynnwys defnyddio gwybodaeth sy'n debygol o fod yn hanfodol i'w bywyd gwaith yn y dyfodol.
- 10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Mercher rhwng 16:00 a 18:00**  
**Yn dechrau 2 Hydref 2024**  
**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
 10 Credyd, Lefel 4  
**BAM24A5151A**



## Rheoli prosiectau

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

- Dr Jo Smedley**  
 Mae'r cwrs hwn yn rhoi cyflwyniad da i'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer rheoli prosiectau'n llwyddiannus. Mae hwn yn faes astudio a chymhwyso sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd ac mae'n ddefnyddiol ym mhob agwedd ar reoli bywyd a chyflogaeth. **Mae'r cwrs hwn yn hynod o boblogaidd, felly dylech ymrestru ymlaen llaw.**
- 10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Fercher rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 2 Hydref 2024**  
**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
 10 Credyd, Lefel 4  
**BAM24A5264A**
- 10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Fercher rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 22 Ionawr 2025**  
 Dysgu Gydol Oes,  
 50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
 10 Credyd, Lefel 4  
**BAM24A5264B**
- 10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Mercher rhwng 16:00 a 18:00**  
**Yn dechrau 16 Ebrill 2025**  
 Dysgu Gydol Oes,  
 50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
 10 Credyd, Lefel 4  
**BAM24A5264C**

## Methodolegau Rheoli Prosiect

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

- Dr Jo Smedley**  
 Nod y modiwl hwn yw ehangu dealltwriaeth o gysyniadau academaidd ac ymarferol methodolegau rheoli prosiect. Dros gyfnod o 10 wythnos, bydd y myfyrwr yn datblygu eu dealltwriaeth o wahanol fethodolegau sy'n berthnasol i wahanol gyd-destunau. Bydd y myfyrwr yn cael eu haddysgu gan ddefnyddio theori academaidd, ymarferion, profion ac astudiaethau achos. Byddan nhw hefyd yn cymryd rhan mewn trafodaethau grŵp.
- 10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Fercher rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 16 Ebrill 2025**  
 Dysgu Gydol Oes,  
 50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
 10 Credyd, Lefel 5  
**BAM24A5559A**

**Ymrestrwch nawr!**



Llwybr at radd *mewn*

# Rheoli Busnes, Marchnata a Chyfrifeg

Darlithydd Cydlynol:  
**Dr Sara Jones**  
Ffôn: **029 2087 5268**  
E-bost:  
**JonesSJ15@caerdydd.ac.uk**

Cydlynnydd Llwybrau:  
**Dr Catherine Phelps**  
Ffôn: **029 2087 0000**  
E-bost:  
**pathways@caerdydd.ac.uk**

[www.caerdydd.ac.uk/cy/part-time-courses-for-adults/pathways-to-a-degree](http://www.caerdydd.ac.uk/cy/part-time-courses-for-adults/pathways-to-a-degree)

Rydyn ni'n cynnig llwybr a fydd yn eich galluogi i astudio ar gyfer y graddau hyn ym Mhrifysgol Caerdydd:

- ▶ **Rheoli Busnes (N201)**
- ▶ **Marchnata (NN25)**
- ▶ **Cyfrifeg (N400)**

Caiff modiwlau eu haddysgu gyda'r nos ac ar benwythnosau. Mae'n rhaid bod gennych radd B/6 mewn TGAU Mathemateg er mwyn i Ysgol Busnes Caerdydd ystyried eich cais am radd.



## Sut mae'n gweithio

**Modiwl craidd  
Pobl mewn  
Sefydliadau  
20 credyd**

+

**4 x modiwlau  
dewisol  
(10 o  
gredydau)**

=

**Llwybr at Reoli  
Busnes,  
Marchnata a  
Chyfrifeg  
60 credyd**

## Pobl mewn Sefydliadau



Ffi o £528.00 (Ffi Gonsesiynol o £422.00)

### Jemma Cox

Mae'r cwrs yn rhoi cyflwyniad i fyfyrwyr i themâu, cysyniadau a damcaniaethau allweddol sy'n ymwneud ag astudio rheoli pobl mewn sefydliadau. Caiff sylw arbennig ei roi i sefydliadau fel pwyntiau nodol rhyngweithio dynol o fewn y byd busnes, gan ganolbwyntio ar agweddau cymdeithasol a seicolegol y cysylltiadau hyn. Mae'r modiwl **Pobl mewn Sefydliadau** yn fodiwl 20 credyd ar y **Llwybr at Reoli Busnes**.

**6 o gyfarfodydd bob pythefnos yn ogystal â 20 awr ar-lein**  
**Nos Fercher rhwng 18:30 a 21:00 yn ogystal â 2 ysgol dydd Sadwrn**  
**Yn dechrau 8 Ionawr 2025**

Dysgu Gydol Oes,  
 50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
 20 Credyd, Lefel 4  
**BAM24A4920A**

*Dysgwch gyda ni a...  
 dod yn gystadleuol yn  
 y farchnad swyddi  
 ryngwladol*

## Sgiliau Rheoli Hanfodol



Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Jemma Cox

Mae'r cwrs cynhwysfawr hwn yn rhyngweithiol iawn, ac yn rhoi cwmpas rhagorol o sgiliau, technegau a gwybodaeth hanfodol ar gyfer llwyddo fel rheolwr. Mae'r cwrs wedi'i lunio ar gyfer myfyrwyr sydd am fod yn rheolwyr neu'n oruchwylwyr, ond heb hyfforddiant ffurfiol ym maes rheoli. Mae'r cwrs hwn yn canolbwyntio ar hyblygrwydd a'r gallu i weithio mewn amgylchedd Prydeinig, Ewropeaidd a byd-eang.

**5 o gyfarfodydd bob pythefnos**  
**Nos Fawrth rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 1 Hydref 2024**

Dysgu Gydol Oes,  
 50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
**Yn ogystal â 10 awr ar-lein**  
 10 Credyd, Lefel 4  
**BAM24A4924A**

## Sgiliau Arwain Hanfodol



Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Jemma Cox

Mae'r cwrs cynhwysfawr hwn yn rhyngweithiol iawn, ac yn rhoi cwmpas rhagorol o sgiliau, technegau a gwybodaeth hanfodol ar gyfer llwyddo fel rheolwr. Mae'r cwrs wedi'i lunio ar gyfer myfyrwyr sydd am fod yn rheolwyr neu'n oruchwylwyr, ond heb hyfforddiant ffurfiol ym maes rheoli. Mae'r cwrs hwn yn canolbwyntio ar hyblygrwydd a'r gallu i weithio mewn amgylchedd Prydeinig, Ewropeaidd a byd-eang. Addysgir y cwrs hwn drwy gymysgedd o ddysgu ar-lein a dysgu yn yr ystafell ddosbarth.

**5 o gyfarfodydd bob pythefnos**  
**Nos Fawrth rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 21 Ionawr 2025**

Dysgu Gydol Oes,  
 50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
**Yn ogystal â 10 awr ar-lein**  
 10 Credyd, Lefel 4  
**BAM24A5176A**

## Cyfraith Contractau



Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Jemma Cox

Mae'r cwrs hwn yn edrych ar greu contractau sy'n gyfreithiol rwymol a sut mae contract yn gweithio'n ymarferol. Trwy gydol y cwrs, bydd myfyrwyr yn ystyried yr elfennau sy'n ffurfio contract sy'n ddilys yn gyfreithiol; datrysiadau sydd ar gael pan fydd rhwymedigaeth gytundebol yn cael ei dorri, gwahanol fathau o gamliwio a thelerau contract annheg. Bydd myfyrwyr yn myfyrto ar sut mae'r materion hyn yn effeithio ar y partion i'r contract. Bydd y cwrs hwn o ddiddordeb i unrhyw un sydd eisiau gwella eu dealltwriaeth am y contractau maen nhw'n ymrwymo â nhw, boed hynny yn eu bywyd personol neu mewn cyd-destun gwaith.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Iau rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 3 Hydref 2024**

Dysgu Gydol Oes,  
 50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
 10 Credyd, Lefel 4  
**LAW24A4509A**



## Cyfraith Defnyddwyr



Ffi o £264.00 (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

### Jemma Cox

Mae pob un ohonon ni'n prynu nwyddau a gwasanaethau yn rheolaidd a gallwn fod yn delio â chwsmeriaid yn y gwaith neu'n mwynhau prynu a gwerthu nwyddau ar-lein neu mewn arwerthiannau cist car yn ein hamser sbâr. Er hynny, faint ohonon ni sy'n gwybod ein hawliau a'n cyfrifoldebau cyfreithiol yn llawn? Mae'r modiwl ar-lein hyblyg hwn yn trin a thrafod hanfodion agweddau cyfreithiol ac ymarferol ar drafodion defnyddwyr a busnes. Mae hefyd yn rhoi cyngor ac arweiniad ymarferol er mwyn eich helpu i wneud penderfyniadau'n well a datrys anghydfodau rhyngoch chi a chwsmeriaid neu gleientiaid.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Fercher rhwng 18:00 a 20:00**  
**Yn dechrau 30 Ebrill 2025**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
 10 Credyd, Lefel 4  
**LAW24A5556A**

## Mae'r modiwlau opsiynol hefyd yn cynnwys:

Technoleg a'r Oes Ddigidol (tudalen 4)

Rheoli Prosiectau (tudalen 4)



# Astudiaethau Cyfrifiadurol

Darlithydd Cydlynol: **Dr Jim Vafidis**  
Ffôn: **029 2251 4509**  
E-bost: **VafidisJ@caerdydd.ac.uk**



## Datblygu Gwefannau gan ddefnyddio HTML a CSS

**Ffi o £528.00** (Ffi Gonsesiynol o £422.00)

### Mr Huw Davies

Dysgwch sut i greu gwefan gan ddefnyddio HTML (Hyper Text Markup Language), CSS (Cascading Style Sheets) a jQuery (Javascript). Cwrs codio HTML a CSS yw hwn, a bydd yr holl waith cwrs yn cael ei godio â llaw heb ddefnyddio unrhyw swyddogaethau llusgo/gollwng neu offer megis DreamWeaver ac WordPress. Byddwn yn ymdrin ag elfennau codio sylfaenol jQuery gan y bydd cydrannau jQuery a grëwyd eisoes megis llythyrdion, acordiynau, cwymplenni a sioeau sleidiau yn cael eu defnyddio. Mae'r cwrs yn cynnwys ychwanegu penynnau, testun, dolenni, delweddau, tablau, rhestrau, bwydlenni, mapiau Google, fideos a ffurflenni YouTube, ynghyd â chyflwyniad i Ddylunio Gwe Ymatebol (REO) ac egwyddorion Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO). Does dim angen gwybodaeth flaenorol am HTML, CSS neu jQuery.

**11 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Lun rhwng 18:00 a 21:00**  
**yn ogystal ag 1 ysgol dydd Sadwrn**  
**Yn dechrau 30 Medi 2024**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
20 Credyd, Lefel 4  
**COM24A4867A**

## Rhaglennu Python

**Ffi o £528.00** (Ffi Gonsesiynol o £422.00)

### Dr Mike Evans

Cyflwyniad i raglennu yn iaith sgriptio Python, sy'n ddelfrydol os oes gennych chi rywfaint o wybodaeth eisoes am raglennu cyfrifiadurol. Ymhlith y pynciau sy'n rhan o'r cwrs mae cyflwyniad i Python, creu a gweithredu sgriptiau Python, mathau o wrthrychau gosod megis rhifau, llinynnau, rhestrau a geiriaduron, swyddogaethau wedi'u diffinio gan ddefnyddwyr, ffeiliau, trin eithriadau, offer gosod a rheoli cronfeydd data allweddol. Cymysgedd o ddarlithoedd a sesiynau ymarferol.

**12 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Fawrth rhwng 18:00 a 21:00**  
**yn ogystal ag 1 ysgol dydd Sadwrn**  
**Yn dechrau 1 Hydref 2024**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
20 Credyd, Lefel 5  
**COM24A5337A**

**12 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Lun rhwng 18:00 a 21:00**  
**yn ogystal ag 1 ysgol dydd Sadwrn**  
**Yn dechrau 27 Ionawr 2025**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
20 Credyd, Lefel 5  
**COM24A5337B**

## Java I

**Ffi o £528.00** (Ffi Gonsesiynol o £422.00)

### Dr Mike Evans

Cyflwyniad i raglennu JAVA. Ymhlith y pynciau sy'n rhan o'r cwrs mae cyflwyniad i ddosbarthiadau a gwrthrychau, gweithredwyr rhifyddol, defnyddio dulliau'r dosbarth Mathemateg, gweithredwyr cymharu a defnyddio datganiadau 'if', defnyddio dolenni 'while', 'do', a 'for', creu fframiau darlunio syml, mewnbynnu'r bysellfwrdd ac ymdrin ag eithriadau, defnyddio dulliau dosbarthiadau Llinyn a Nod, mewnbynnu ffeiliau testun, paru patrymau, dulliau cyrchu a mwntanu, newidynnau statig a dulliau statig ac, yn olaf, araeau. Cymysgedd o ddarlithoedd a sesiynau ymarferol.

**12 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Fercher rhwng 18:00 a 21:00**  
**yn ogystal ag 1 ysgol dydd Sadwrn**  
**Yn dechrau 2 Hydref 2024**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
20 Credyd, Lefel 5  
**COM24A3337A**

## Rhaglennu Powershell Windows

**Ffi o £528.00** (Ffi Gonsesiynol o £422.00)

### Dr Mike Evans

Mae Windows PowerShell yn caniatáu i ddefnyddiwr greu sgriptiau pwrpasol sy'n debyg i'r rheini sydd ar gael yn Linux ers blynyddoedd lawer. Ymhlith y pynciau sy'n rhan o'r cwrs hwn y mae cyflwyniad i orchmynion MS-DOS, ailgyfeirio mewnbwn ac allbwn, pibellu, creu ac amserlennu ffeiliau swp MS-DOS, cyrchu PowerShell a cmdlets PowerShell sylfaenol a'u cau, newidynnau, gweithredwyr, defnyddio ffwythiannau mathemategol, fformatio a defnyddio llinynnau a meta-gymeriadau, a llawer mwy.

**12 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Iau rhwng 18:00 a 21:00**  
**yn ogystal ag 1 ysgol dydd Sadwrn**  
**Yn dechrau 3 Hydref 2024**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
20 Credyd, Lefel 5  
**COM24A5094A**



## Cyflwyniad Ysgafn i Ddadansoddi Data gan ddefnyddio R

Ffi o £261.00 (Ffi Gonsesiynol o £209.00)

### Dr Jim Vafidis

Mae'r cwrs deg wythnos hwn yn cynnig cyflwyniad sy'n gweddu dechreuwyr a bydd yn dadansoddi data gan ddefnyddio R. Cafodd ei ddylunio ar gyfer gwyddonwyr amatur a dysgwyr sy'n paratoi ar gyfer cyrsiau gofal iechyd neu gyrsiau sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth. Bydd y sawl sy'n cymryd rhan yn dysgu rhaglennu R, trin data, ystadegau sylfaenol a delweddu data, a hynny drwy ymarferion a phrosiectau ymarferol mewn cyd-destun cefnogol.

### 10 cyfarfod wythnosol

Nos Iau rhwng 18:00 a 20:00  
Yn dechrau 9 Ionawr 2025

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
10 Credyd, Lefel 4  
**COM24A5579A**

**Ymrestrwch nawr!**

## Rhaglennu C++

Ffi o £528.00 (Ffi Gonsesiynol o £422.00)

### Dr Mike Evans

Cyflwyniad i **Raglennu C++**. Ymhlith y pynciau sy'n rhan o'r cwrs mae gweithredwyr rhifyddol, mewnbwn ac allbwn syml, datganiadau rheoli amodol ac iterus, fformatio allbwn, creu swyddogaethau wedi'u diffinio gan ddefnyddwyr, cyflwyniad i bwntyddion, araeau, dosbarthiadau a gwrthrychau, newidynnau dosbarth, adeiladyddion a swyddogaethau, gan ddefnyddio dosbarthiadau sy'n cynnwys swyddogaethau statig a newidynnau statig, cyflwyniad i etifeddu drwy greu dosbarth sy'n deillio o ddsbarth sylfaenol, swyddogaethau etifeddol ac aiddosranedig (overridden) ac, yn olaf, cyrchu ffeiliau testun.

### 12 cyfarfod wythnosol

Nos Fawrth rhwng 18:00 a 21:00  
yn ogystal ag 1 ysgol dydd Sadwrn  
Yn dechrau 28 Ionawr 2025

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
20 Credyd, Lefel 5  
**COM24A2652A**



## Rhaglennu Python Uwch

Ffi o £528.00 (Ffi Gonsesiynol o £422.00)

### Dr Mike Evans

Yn ehangu ar y cysyniadau a gafodd eu cyflwyno **Rhaglennu Python**. Ymhlith y pynciau sy'n rhan o'r cwrs mae darllen data o ffeil i arae, defnyddio Python i ddadansoddi taenlen Microsoft, didoli data gan ddefnyddio allweddli lluosog, cyflwyniad i ddsbarthiadau Python ac etifeddu, cyflwyniad i Ryngwynebau Defnyddiwr Graffig (GUI), rhaglennu systemau gan ddefnyddio sgrïptiau Python ac, yn olaf, rhaglennu rhwydweithiau gan ddefnyddio protocolau UDP ac TCP. Cymysgedd o ddarlithoedd a sesiynau ymarferol.

### 12 cyfarfod wythnosol

Nos Fercher rhwng 18:00 a 21:00  
yn ogystal ag 1 ysgol dydd Sadwrn  
Yn dechrau 29 Ionawr 2025

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
20 Credyd, Lefel 5  
**COM24A5395A**

## Deallusrwydd Artiffisial ymarferol: Deallusrwydd Artiffisial yn yr Oes Ddigidol

Ffi o £261.00 (Ffi Gonsesiynol o £209.00)

### Tiwtor i'w gadarnhau

Cyflwyno maes deinamig Deallusrwydd Artiffisial (DA), gan drin a thrafod ei seiliau academaidd a'r defnydd ymarferol ehangach ohono. Bydd dysgwyr yn deall rhagor am sut mae technolegau DA yn dylanwadu ar y cyfnod digidol, a hynny drwy wersi difyr a diddorol sy'n cyfuno theori a gweithgareddau ymarferol. Bydd y modiwl yn ymdrin â chysyniadau craidd DA, gan gynnwys rhwydweithiau niwral, dysgu peirianyddol ac ystyriaethau moesegol.

### 10 cyfarfod wythnosol

Nos Iau rhwng 18:00 a 20:00  
Yn dechrau 20 Mawrth 2025

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
10 Credyd, Lefel 4  
**COM24A5581A**



# Y Dyniaethau

Darlithydd Cydlynol: **Dr Michelle Deininger**  
Ffôn: **029 2087 0000**  
E-bost: **DeiningerMJ@caerdydd.ac.uk**



## Ysgrifennu Creadigol

## Cyrsiau Ysgrifennu Cyffredinol a Rhagarweiniol

### Ysgrifennu Creadigol: Dechrau Ysgrifennu

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Rachel Smith

Ydy ysgrifennu'n codi ychydig o arswyd arnoch chi, fel llamu i'r tywyllwch? Hoffech chi allu dechrau ysgrifennu'r nofel honno, y cofiant, neu ddarn byrrach? Bydd y cwrs hwn yn gyflwyniad i rai o'r sgiliau pwysicaf ym meddiant

awdur creadigol: dychymyg, hyder a dyfalbarhad. Erbyn diwedd y cwrs, byddwch wedi cymryd y cam cyntaf ac wedi dechrau ysgrifennu!

• **10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Mercher rhwng 13:00 a 15:00**  
**Yn dechrau 2 Hydref 2024**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4

**CRW24A5363A**

• **10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Fawrth rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 28 Ionawr 2025**  
**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**

10 Credyd, Lefel 4

**CRW24A5363B**

• **10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Iau rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 8 Mai 2025**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4

**CRW24A5363C**

## Parhau i Ysgrifennu

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Rachel Smith

Mae'r cwrs hwn yn barhad ar **'Dechau Ysgrifennu'** ac mae'n annog myfyrwyr i ddatblygu ymhellach y sgiliau y maen nhw wedi'u hennill yn gynharach yn y cwrs. Mae croeso mawr i fyfyrwyr sydd ddim wedi astudio **Dechrau Ysgrifennu** ac sy'n awyddus i fireinio eu sgiliau ysgrifennu ymhellach ymuno hefyd.

• **10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Fercher rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 2 Hydref 2024**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**

10 Credyd, Lefel 4

**CRW24A5464A**

• **10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Iau rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 3 Hydref 2024**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4

**CRW24A5464B**

• **10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Mercher rhwng 13:00 a 15:00**  
**Yn dechrau 29 Ionawr 2025**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4

**CRW24A5464C**

• **10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Fawrth rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 6 Mai 2025**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**

10 Credyd, Lefel 4

**CRW24A5464D**

## Ysgrifennu Heb Derfynau

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Rachel Smith

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio ar gyfer unrhyw un sydd wedi cwblhau un o'n cyrsiau ysgrifennu rhagarweiniol, megis **Dechrau Ysgrifennu** a **Parhau i Ysgrifennu**, neu i'r rhai sydd am wella eu sgiliau ysgrifennu ymhellach. Mae'n gyfle i ddysgu rhagor am y grefft a magu hyder mewn sgiliau ysgrifennu.

• **10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Fercher rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 29 Ionawr 2025**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**

10 Credyd, Lefel 4

**CRW24A5461A**

• **10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Iau rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 30 Ionawr 2025**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4

**CRW24A5461B**

## Chwilio am yr Awen

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Briony Goffin

Mae'r cwrs yn edrych ar natur ysbrydoliaeth - beth yw e, sut i ddod o hyd iddo, gyda'r nod o gael yr awen i lifo a pharhau i ysgrifennu. Bydd y cwrs yn mynd i'r afael â phynciau fel colli'r awen; arferion ysgrifennu; y llais (chwilio am un dilys); ffurf (dod o hyd i un sy'n gweddu i lais yr awdur); themâu sy'n codi dro ar ôl tro a motiffau personol; amcanion a dyheadau ynghylch ysgrifennu.

### 10 cyfarfod wythnosol

**Dydd Iau rhwng 10:00 a 12:00**

**Yn dechrau 26 Medi 2024**

### Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein

10 Credyd, Lefel 4

**CRW24A5587A**

### 10 cyfarfod wythnosol

**Dydd Mawrth rhwng 10:00 a 12:00**

**Yn dechrau 21 Ionawr 2025**

### Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein

10 Credyd, Lefel 4

**CRW24A5587B**



## Ysgrifennu Ffeithiol Creadigol

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Hari Berrow

Weithiau, cyfeirir at ysgrifennu ffeithiol creadigol fel y "pedwerydd genre", ochr yn ochr â barddoniaeth, drama a ffuglen. Mae'n ffurf lle mae dweud y gwir a defnyddio iaith lenyddol cyn bwysiced â'i gilydd. Bydd y cwrs yn cwmpasu ffeithiol dyfaliadol, yr ysgrif weledol, cofiant, dyddiadur, llên teithio, llên bwyd, newyddiaduraeth lenyddol, hanes naratif a'r ysgrif bersonol.

### 10 cyfarfod wythnosol

**Dydd Llun rhwng 13:00 a 15:00**

**Yn dechrau 30 Medi 2024**

Dysgu Gydol Oes,

50-51 Plas y Parc, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4

**CRW24A5537A**

## Ysgrifennu i Blant

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Suzie Good

Mae llenyddiaeth lwyddiannus i blant yn faes amrywiol sy'n newid yn gyson yn y byd cyhoeddi. Ond sut mae oedolion yn ysgrifennu ar gyfer plant, a beth mae plant yn hoffi ei ddarllen, hyd yn oed? Mae **Ysgrifennu i Blant** yn gwrs ysgrifennu creadigol ymarferol wedi'i addysgu gan awdur plant sydd wedi cyhoeddi, ac mae'n galluogi myfyrwyr i ysgrifennu â hyder.

### 10 cyfarfod wythnosol

**Dydd Iau rhwng 14:00 a 16:00**

**Yn dechrau 26 Medi 2024**

Dysgu Gydol Oes,

50-51 Plas y Parc, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4

**CRW24A5358A**

### 10 cyfarfod wythnosol

**Dydd Mawrth rhwng 10:00 a 12:00**

**Yn dechrau 1 Hydref 2024**

### Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein

10 Credyd, Lefel 4

**CRW24A5358B**

## Ffuglen Fflach

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Laurie Canciani

Beth sy'n digwydd pan fydd stori fer mor fyr ei bod hi'n dod yn fath gwahanol o stori? Mae'r cwrs ysgrifennu creadigol ymarferol hwn yn ystyried ffurf gynyddol boblogaidd ffuglen fflach, a bydd yn edrych ar y sbectrwm o naratifau byr, gan gynnig trosolwg o gyfleoedd cyhoeddi ac awgrymiadau ymarferol ar gyfer cyflwyniadau i gylchgronau a chystadlaethau

### 10 cyfarfod wythnosol

**Nos Fawrth rhwng 19:00 a 21:00**

**Yn dechrau 1 Hydref 2024**

Dysgu Gydol Oes,

50-51 Plas y Parc, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4

**CRW24A5274A**

## Anturiaethau Pellach mewn Ffuglen Wyddonol a Ffantasi

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Dr Gemma Scammell

Gan adeiladu ar y cysyniadau allweddol a gafodd eu harchwilio yn **Ysgrifennu Ffuglen Wyddonol a Ffantasi**, bydd y cwrs hwn yn datblygu dealltwriaeth myfyrwyr o rai o'r awduron ffuglen wyddonol a ffantasi mwyaf dylanwadol hyd yn hyn. Ymhlith yr awduron a drafodir mae Terry Pratchett, J. R. R. Tolkien, Douglas Adams, Octavia Butler, Aldous Huxley, Ursula Le Guin ac N. K. Jemisin.

### 10 cyfarfod wythnosol

**Dydd Mercher rhwng 10:00 a 12:00**

**Yn dechrau 25 Medi 2024**

Dysgu Gydol Oes,

50-51 Plas y Parc, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4

**CRW24A5531A**

## Genres Poblogaidd

### Gweithdy Ysgrifennu Nofelau

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

Dan arweiniad awdur proffesiynol, dyma gwrs ar gyfer unrhyw un sydd â llyfr yn barod i'w ysgrifennu, ac y byddai'n well ganddyn nhw ei weld ar silff mewn siop lyfrau. Pa elfennau sy'n ei gwneud hi'n anodd rhoi nofel i lawr? Sut gallwch sicrhau bod eich darllenwyr yn cael eu cyfareddu? Bydd y cwrs hwn yn edrych ar holl ffurfiau ffuglen gyfoes hyd cyflawn, a bydd yn eich arwain chi trwy'r broses o ysgrifennu nofel, yn ogystal â chynnig arweiniad ar y grefft hollbwysig o ddenu asiant a/neu gyhoeddwr.

### Rachel Dawson

### 10 cyfarfod wythnosol

**Dydd Mercher rhwng 10:00 a 12:00**

**Yn dechrau 25 Medi 2024**

Dysgu Gydol Oes,

50-51 Plas y Parc, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4

**CRW24A4674A**

### Katie Munnik

### 10 cyfarfod wythnosol

**Nos Fawrth rhwng 19:00 a 21:00**

**Yn dechrau 1 Hydref 2024**

### Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein

10 Credyd, Lefel 4

**CRW24A4674B**

### Lynne Barrett-Lee

### 10 cyfarfod wythnosol

**Dydd Mercher rhwng 10:00 a 12:00**

**Yn dechrau 22 Ionawr 2025**

Dysgu Gydol Oes,

50-51 Plas y Parc, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4

**CRW24A4674C**

## Llenyddiaeth Ddystopaidd

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Dr Gemma Scammell

Mae ffuglen ddystopaidd yn faes llenyddol poblogaidd sydd ar gynnydd yn y farchnad gyhoeddi. Beth yw'r rheswm dros y twf hwn mewn cyhoeddiadau? Beth yw'r themâu sy'n denu darllenwyr at y storiâu hyn, a sut maen nhw'n adlewyrchu'r gymdeithas sydd ohoni? Mae'r cwrs ysgrifennu creadigol a beirniadol ymarferol hwn yn edrych ar genre llenyddiaeth ddystopaidd, gan drafod y cynnydd yn ei boblogrwydd.

### 10 cyfarfod wythnosol

Dydd Iau rhwng 17:00 a 19:00

Yn dechrau 3 Hydref 2024

Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein

10 Credyd, Lefel 4

CRW24A5366A

## Ysgrifennu Rhamant

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Rachel Dawson

Er mai Jane Austen yw un o awduron mwyaf yn hanes y canon llenyddol, mae rhamant gyfoes yn aml yn cael ei thanbriso mewn genre ffuglennol. Ar y modiwl hwn, byddwch yn edrych ar amrywiaeth o fathau gwahanol o ramant a'u cyd-destunau, wrth archwilio arddulliau a dulliau gwahanol mewn gweithdai cefnogol.

### 10 cyfarfod wythnosol

Dydd Mercher rhwng 10:00 a 12:00

Yn dechrau 22 Ionawr 2025

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4

CRW24A5533A

## Ysgrifennu Ffuglen Hanesyddol

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Katie Munnik

Sut allwn ni gyfleu iaith y gorffennol? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng ffeithiau hanesyddol a ffuglen hanesyddol? Beth mae ysgrifennu am y gorffennol yn ei ddweud am y presennol? Mae'r cwrs hwn yn trin a thrafod elfennau allweddol ysgrifennu ffuglen hanesyddol, gan gydbwyso cywirdeb hanesyddol â gofynion llunio ffuglen.

### 10 cyfarfod wythnosol

Nos Fawrth rhwng 19:00 a 21:00

Yn dechrau 28 Ionawr 2025

Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein

10 Credyd, Lefel 4

CRW24A5451A

# Llyfr o waith tiwtor Dysgu Gydol Oes yn cyrraedd rhestr fer Llyfr y Flwyddyn

**Mae llyfr Rachel  
Dawson, Neon Roses,  
wedi'i osod ar restr fer  
gwobr Ffuglen  
Ymddiriedolaeth  
Rhys Davies.**



Bob blwyddyn mae Gwobr Llyfr y Flwyddyn yn dathlu talentau llenyddol eithriadol o Gymru mewn sawl genre

yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae pedwar categori ym mhob iaith – Barddoniaeth, Ffuglen, Ffeithiol Greadigol a Phlant a Phobl Ifanc. Un o'r pedwar enillydd categori fydd yr enillydd cyffredinol ac yn hawlio teitl Llyfr y Flwyddyn 2024.

Mae *Neon Roses* yn stori dwymgalon am ferch ifanc o'r enw Eluned Hughes yn dod i oed yn un o gymoedd y de yn 1984. Mae'r stori wedi'i gosod yn ystod streic y glowyr. Pan ddaw grŵp codi arian *Lesbians and Gays Support the Miners* i'r cwm o Lundain, mae bywyd Eluned yn cael ei droi ar ei ben yn ddisymwth.

Dywedodd Rachel:

“ Rydw i mor falch o fod ar restr fer Llyfr y Flwyddyn, yn enwedig ar restr mor ddiddorol ac amrywiol. Mae *Neon Roses* wedi'i ysbrydoli i raddau helaeth gan fy nghariad at Gymru, felly mae'n wych cael fy nghydnabod fel un sy'n cynrychioli Cymru mewn rhyw ffordd. ”

Dywedodd Dr Michelle Deininger, Cyfarwyddwr Dros Dro a Chydlynnydd rhaglen y Dyniaethau ym maes Dysgu Gydol Oes:

“ Hoffem longyfarch Rachel ar y llwyddiant rhagorol hwn. Mae *Neon Roses* yn llyfr hynod ddifyr, teimladwy a phwysig. Rydym ni wrth ein bodd i gael Rachel yn aelod o'r tîm i ysbrydoli ac arwain ein myfyrwyr ysgrifennu creadigol. ”

Bydd Rachel yn dysgu'r gweithdy **Ysgrifennu Nofel** ac **Ysgrifennu Rhamant** eleni.

## Pobl a Lleoedd

### Creu Cymeriadau: Gwyllo Pobl 2

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Briony Goffin

Mae'r cwrs newydd yn cynnig cyfle i ddychwelyd at bwnc hynod ddiddorol a chymhleth, sef pobl fel man cychwyn ar gyfer ysgrifennu straeon. Drwy gyfuniad o ddychymyg a phrofiad uniongyrchol, byddwn yn ceisio creu cast o gymeriadau gwreiddiol sy'n gyfarwydd ac yn arbennig o'r cychwyn un.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Mawrth rhwng 10:00 a 12:00**  
**Yn dechrau 24 Medi 2024**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
10 Credyd, Lefel 4  
**CRW24A5538A**

### Trin a Thrafod Plentyndod

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Briony Goffin

Gan ddefnyddio testun plentyndod a glaslencyndod yn sylfaen i ysbrydoli straeon ffuglennol a hunangofiannol am fod yn blentyn, cael eich magu, a chyrraedd cerrig milltir arwyddocaol, bydd y cwrs hwn yn trin a thrafod persbectif a llais, yn ogystal â sut i gyfleu byd y plentyn mewn ffordd sy'n fyw ac yn agos atoch, yn bersonol ac yn hollgyffredinol.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Iau rhwng 10:00 a 12:00**  
**Yn dechrau 23 Ionawr 2025**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
10 Credyd, Lefel 4  
**CRW24A5584A**

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Mawrth rhwng 10:00 a 12:00**  
**Yn dechrau 6 Mai 2025**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
10 Credyd, Lefel 4  
**CRW24A5584B**

Caiff cyrsiau  
newydd eu  
hychwanegu at ein  
gwefan drwy gydol  
y flwyddyn.



### Teithiau Ysgrifennu: Archwilio Ymhellach

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Briony Goffin

Mae'r cwrs hwn yn dychwelyd at y syniad o daith. Drwy gyfuniad o Lên Teithio a Chofiant, byddwn ni'n treiddio'n ddwfn i brofiadau o fynd a dod, aildroedio a dychwelyd, mapiau a mordwyo, mynd ar goll a darganfod. Gallwch ei astudio fel cwrs annibynnol neu i ategu **Teithiau Ysgrifennu**.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Iau rhwng 10:00 a 12:00**  
**Yn dechrau 8 Mai 2025**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
10 Credyd, Lefel 4  
**CRW24A5586A**

### Ysgrifennu Caerdydd: Ysbrydoliaeth a'r Ddinas

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Hari Berrow

Mae'r modiwl hwn wedi'i seilio'n rhannol yn y dosbarth ac yn rhannol ar ymweliadau â gwahanol safleoedd yng Nghaerdydd, gan gynnwys Parc Bute, Bae Caerdydd a'r Amgueddfa. Bydd myfyrwyr yn ystyried rôl y tirlun dinesig, celf, hunaniaeth genedlaethol a natur yn y gwaith o ysgogi ysgrifennu creadigol, wrth archwilio rôl llenyddiaeth yn llywio hanes y ddinas.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Iau rhwng 13:00 a 15:00**  
**Yn dechrau 8 Mai 2025**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
10 Credyd, Lefel 4  
**CRW24A4081A**

## Amgueddfeydd a Thirnodau

### Celf ac Ekphrasis: Ysgrifennu Creadigol a'r Amgueddfa Fodern

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Dr Rachel Carney

Mae "Ekphrasis" yn derm sy'n cyfeirio at yr ymateb llenyddol i ddam o gelfyddyd, neu gynrychioliad llenyddol ohono, ac mae'n ddull llenyddol â hanes hir iddo. Mae'r dull creadigol hwn, a ddaeth i'r amlwg yn Ode to a Grecian Urn gan John Keats, yn cynnig cyfleoedd diddiwedd am ysbrydoliaeth.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Gwener rhwng 10:00 a 12:00**  
**Yn dechrau 27 Medi 2024**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
10 Credyd, Lefel 4  
**CRW24A5534A**



### Fframio'r Gothig: Portreadau mewn Llenyddiaeth

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Suzie Good

Boed ail-weithio'r myth Faustaidd drwy lens yr Oes Fictoraidd yn *The Picture of Dorian Gray* gan Oscar Wilde, y nofel *Orlando* gan Virginia Woolf, neu *The Moor's Last Sigh* gan Salman Rushdie, bydd y cwrs hwn yn trin a thrafod sut mae nodweddion portreadau wedi caniatáu i awduron symboleiddio'r gwrthdaro rhwng y byd go iawn a'r byd metafisegol. Bydd cyfle hefyd i ymweld â'r adran bortreadaeth yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Iau rhwng 13:00 a 15:00**  
**Yn dechrau 23 Ionawr 2025**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
10 Credyd, Lefel 4  
**LIT24A5585A**

### Ysgrifennu Caerdydd: Ysbrydoliaeth a'r Ddinas

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Hari Berrow

Mae'r modiwl hwn wedi'i seilio'n rhannol yn y dosbarth ac yn rhannol ar ymweliadau â gwahanol safleoedd yng Nghaerdydd, gan gynnwys Parc Bute, Bae Caerdydd a'r Amgueddfa. Bydd myfyrwyr yn ystyried rôl y tirlun dinesig, celf, hunaniaeth genedlaethol a natur yn y gwaith o ysgogi ysgrifennu creadigol, wrth archwilio rôl llenyddiaeth yn llywio hanes y ddinas

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Iau rhwng 13:00 a 15:00**  
**Yn dechrau 8 Mai 2025**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
10 Credyd, Lefel 4  
**CRW24A4081A**

### Ysgrifennu er Budd ein Lles

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Joanne Meek

Dros bum niwrnod o astudio, bydd y cwrs hwn yn eich cyflwyno i ddamcaniaethau sylfaenol sy'n awgrymu pam a sut y gall ysgrifennu fod yn ddefnyddiol ar gyfer lles. Mae'r cwrs yn addas i bawb sydd â diddordeb yn y pwnc, waeth beth yw eu profiad ysgrifennu blaenorol, ond gall hefyd fod yn ddefnyddiol ar gyfer cydestunau proffesiynol (megis cwrsela a gofal iechyd).

**Bob dydd rhwng 10:00 a 15:00**  
**Evch i'r wefan am y dyddiadau**  
**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**

10 Credyd, Lefel 4  
**CRW24A5532A**

## Sgriptio

### Ysgrifennu ar gyfer Llwyfan a Sgrin

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Rachel Smith

Ydych chi'n chwilfrydig am ysgrifennu ar gyfer y llwyfan neu'r sgrin? Hoffech chi ddysgu sut i ysgrifennu eich sgript eich hun? Gydag awdur a chyfarwyddwr arobryn profiadol yn eich dysgu, cewch gyfle i ddysgu ac ysgrifennu sgriptiau ffilm fer a drama fer yn hyderus.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Lun rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 30 Medi 2024**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
10 Credyd, Lefel 4  
**CRW24A5462A**

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Gwener rhwng 11:00 a 13:00**  
**Yn dechrau 9 Mai 2025**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
10 Credyd, Lefel 4  
**CRW24A5462B**



## Ysgrifennu er Budd ein Lles

### Atgofion a'r Cof

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Taylor Edmonds

Beth yw'r berthynas rhwng atgofion a'r cof? Sut mae atgofion yn wahanol i genres eraill, megis ysgrifennu bywyd neu hunangofiant? Mae'r cwrs hwn yn eich gwahodd i dynnu ar atgofion i ysgrifennu am adegau pwysig a throbwyntiau mewn amgylchedd gweithdy diogel a chefnogol.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Iau rhwng 13:00 a 15:00**  
**Yn dechrau 26 Medi 2024**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
10 Credyd, Lefel 4  
**CRW24A5530A**



## Cyrsiau Uwch a Dwys

### Gweithdy Ffilm Fer Uwch

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Rachel Smith

Mae'r ffilm fer yn un o'r dulliau adrodd stori mwyaf deinamig ac argyhoeddiadol mewn diwylliant modern. Bydd y modiwl hwn yn helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau sgrïptio ar lefel uwch, gan edrych ar y grefft ei hun ynghyd â chyfleoedd proffesiynol. Mae angen rhywfaint o brofiad dysgu blaenorol – gweler y wefan am fanylion.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Lun rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 27 Ionawr 2025**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 5  
**CRW24A5540A**

### Gweithdy Ysgrifennu Creadigol Uwch

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Rachel Smith

Bydd y modiwl hwn yn helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu ar lefel uwch. Gan adeiladu ar wybodaeth o gyrsiau ysgrifennu creadigol blaenorol, bydd myfyrwyr yn ystyried sut i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu mewn ffordd sy'n gwella eu datblygiad proffesiynol yn ogystal â chyfleoedd i gyhoeddi eu gwaith.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Fawrth rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 1 Hydref 2024**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4  
**CRW24A5567A**

### Dosbarth Meistr Dwys mewn Ysgrifennu Creadigol

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Tim Tiwtoriaid Dysgu Gydol Oes

Mae'r dosbarth meistr hwn yn cynnig cyfle i weithio gydag awduron cyhoeddiedig ac ymarferwyr arbenigol a fydd yn eich annog i beidio â dim ond dechrau ysgrifennu, ond i barhau i ysgrifennu. Byddwch yn rhoi cynnig ar dechnegau newydd, ac yn dod yn arbenigwyr yn y rhai mwyaf cyfarwydd. Does dim angen unrhyw brofiad blaenorol; fodd bynnag, mae rhwydd hynt i awduron mwy profiadol gofrestru – bydd darpariaeth ar gyfer bob lefel.

**Bob dydd rhwng 10:00 a 15:00**  
**Dydd Llun 19 Mai i ddydd Gwener 23 Mai 2025**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4  
**CRW24A5362A**



## Cyrsiau Llenyddiaeth

### Fframio'r Gothig: Portreadau mewn Llenyddiaeth

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Suzie Good

Boed ail-weithio'r myth Faustaidd drwy lens yr Oes Fictoraidd yn *The Picture of Dorian Gray* gan Oscar Wilde, y nofel *Orlando* gan Virginia Woolf, neu *The Moor's Last Sigh* gan Salman Rushdie, bydd y cwrs hwn yn trin a thrafod sut mae nodweddion portreadau wedi caniatáu i awduron symboleiddio'r gwrthdaro rhwng y byd go iawn a'r byd metaffisegol. Bydd cyfle hefyd i ymweld â'r adran bortreadaeth yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Iau rhwng 13:00 a 15:00**  
**Yn dechrau 23 Ionawr 2025**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4  
**LIT24A5585A**

### Llenyddiaeth a Chymdeithas Hynafol

Ffi o £264.00 (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

#### Gina Bevan

Beth oedd yn ei olygu i fod yn Roegwr neu'n Rhufeiniwr? Beth mae astudio testunau hynafol yn ei ddatgelu am agweddau at ryfel, cariad, teulu a rhywedd ac am leisiau pobl ar y cyron? Gan ddefnyddio testunau sy'n amrywio o farddoniaeth epig i gomedï, a chan gynnwys gweithiau gan Homer, Sophocles, Ovid, a Virgil, byddwn yn archwilio cymdeithasau fu'n creu straeon sy'n parhau i swyno cynulleidfaoedd heddiw.

**9 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Fercher rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 5 Chwefror 2025**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**

10 Credyd, Lefel 4  
**LIT24A5501A**

*Dysgwch gyda ni a...  
defnyddiwch ein  
llyfrgelloedd  
tra arbenigol*





Llwybr at radd *mewn*

## Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Ysgrifennu Creadigol ac Athroniaeth

Darlithydd Cydlynol:

**Dr Michelle Deininger**

Ffôn: **029 2087 0000**

E-bost:

**DeiningerMJ@caerdydd.ac.uk**

Cydlynnydd Llwybrau:

**Dr Catherine Phelps**

Ffôn: **029 2087 0000**

E-bost:


**pathways@caerdydd.ac.uk**

[www.caerdydd.ac.uk/cy/part-time-courses-for-adults/pathways-to-a-degree](http://www.caerdydd.ac.uk/cy/part-time-courses-for-adults/pathways-to-a-degree)

Rydyn ni'n cynnig llwybr Naratifau Mewnol a fydd yn eich galluogi i astudio ar gyfer y graddau hyn ym Mhrifysgol Caerdydd:

- ▶ **Llenyddiaeth Saesneg**
- ▶ **Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol**
- ▶ **Saesneg**
- ▶ **Saesneg a Llenyddiaeth Saesneg**
- ▶ **Athroniaeth**

Does dim gofynion mynediad ffurfiol. Ar ôl i chi orffen dilyn llwybr Naratifau Mewnol yn llwyddiannus, mae cyfweiliad ym Mhrifysgol Caerdydd wedi'i warantu.



## Sut mae'r Llwybr yn gweithio

Mae'r **Naratifau Mewnol** yn cynnwys **60 o greddyau**.

Mae pob modiwl werth **10 credyd**.

I astudio pwnc gradd penodol ar ôl y Llwybr, rhaid i chi astudio'r modiwl craidd priodol. Mae gan yr holl fodiwlau Naratifau Mewnol craidd y gair '**Mewnol**' yn y teitl.

Os hoffech wneud cais ar gyfer y radd mewn Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, er enghraifft, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dewis **Llenyddiaeth Mewnol** ac **Ysgrifennu Creadigol Mewnol**.

Os dych chi ddim yn siŵr pa radd yr hoffech ei gwneud ar ôl y Llwybr, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dewis amrywiaeth o fodiwlau **craidd a dewisol** y Llwybr sydd o ddiddordeb i chi, sydd â chyfanswm o **60 credyd**.

Os hoffech chi, gallwch ddewis **UN modiwl 10 credyd** addas o'r prif brosbectws, yn hytrach na modiwl Llwybr.

## Modiwlau craidd

### Hanfodion Ysgrifennu Creadigol

Ffi o £264.00 (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

#### Dr Emily Blewitt

Beth yw'r berthynas rhwng awduron ac ysgrifennu? Sut gall darllen ddylanwadu ar grefft awdur? Pam fod myfyrion beirniadol yn bwysig? Mae'r modiwl ymarferol hwn yn cyflwyno myfyrwyr i rai o brif feysydd y ddisgyblaeth, gan gynnwys y stori fer, barddoniaeth, a straeon ffeithiol greadigol drwy theori ac arfer.

**9 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Mercher rhwng 17:00 a 19:00**  
**Yn dechrau 2 Hydref 2024**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
 10 Credyd, Lefel 4  
**CRW24A5275A**

### Hanfodion Llenyddiaeth

Ffi o £264.00 (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

#### Suzie Good

Beth all llenyddiaeth ei ddweud wrthym am y cyflwr dynol? Pam fod awduron yn archwilio'r tueddiad dynol i orgyrraedd? Sut mae testunau'n archwilio diwedd y byd? Cewch ddysgu darllen nofelau, barddoniaeth a dramâu yn fyfyrion ac yn ddadansoddi trwy amrywiol bersbectifau tywyll, ysgytwol, a dystopaidd.

**9 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Iau rhwng 17:00 a 19:00**  
**Yn dechrau 3 Hydref 2024**

Dysgu Gydol Oes,  
 50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
 10 Credyd, Lefel 4  
**LIT24A5001A**

### Hanfodion Iaith

Ffi o £264.00 (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

#### Suzie Good

Bydd y modiwl hwn yn cyflwyno myfyrwyr i rai o'r cwestiynau mawr dan sylw wrth astudio iaith. Beth yw iaith? Sut mae plant yn dysgu iaith? Ydy anifeiliaid yn defnyddio iaith? Byddwn yn ymchwilio i'r cwestiynau hyn a mwy er mwyn deall gwerth a phwysigrwydd astudio iaith yn y byd modern.

**9 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Fercher rhwng 18:00 a 20:00**  
**Yn dechrau 29 Ionawr 2025**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
 10 Credyd, Lefel 4  
**ENG24A5313A**

### Hanfodion Athroniaeth

Ffi o £264.00 (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

#### Dr Clea Rees

Beth yw ystyr bywyd? Beth sydd mor wael am farwolaeth? Ydych chi'n rhydd i gymryd y dosbarth hwn, neu a gafodd eich dewis ei bennu cyn eich geni hyd yn oed? Roedd Socrates yn honni mai dim ond bywyd a archwiliwyd oedd yn werth ei fyw. Ar y modiwl hwn, byddwn yn dechrau ar daith athronyddol fydd yn ein galluogi i ddechrau edrych ar ein bywydau a chwestiynu ein rhagdybiaethau. Does dim angen unrhyw wybodaeth flaenorol.

**9 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Lun rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 27 Ionawr 2025**

Adeilad John Percival,  
 Rhodfa Colum, Caerdydd  
 10 Credyd, Lefel 4  
**PHI24A5311A**

## Modiwlau Dewisol

### Cyflwyniad i Athroniaeth y Meddwl

Ffi o £264.00 (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

#### Dr Clea Rees

Ydy robot yn gallu teimlo poen? Allech chi oresi marwolaeth corfforol? Ydy peiriant yn deall eich meddwl yn well na chi? Beth yw ewyllys rydd ac oes gennych chi ewyllys rydd? Bydd y modiwl hwn yn cyflwyno detholiad o gwestiynau athronyddol allweddol ynghylch y meddwl, rhyddid a hunaniaeth, gan dynnu ar naratif ffuglennol a ffeithiol i amlgyu trafodaethau o destunau amrywiol. Does dim angen unrhyw wybodaeth flaenorol am athroniaeth.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Lun rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 30 Medi 2024**

Adeilad John Percival,  
 Rhodfa Colum, Caerdydd  
 10 Credyd, Lefel 4  
**PHI24A5186A**

**Caiff cyrsiau newydd eu hychwanegu at ein gwefan drwy gydol y flwyddyn.**



### Realaeth Hudol

Ffi o £264.00 (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

#### Dr Gemma Scammell

Mae'r cwrs hwn yn cyflwyno myfyrwyr i Realaeth Hudol fel genre llenyddol, gan olrhain gwreiddiau'r ffurf hyd at ffuglen gyfoes. Bydd myfyrwyr yn dadansoddi detholiad o destunau o bob cwr o'r byd, gan gynnwys awduron megis awdur mwyaf adnabyddus America Ladin ac enillydd Gwobr Nobel, Gabriel García Márquez, a Haruki Murakami sydd wedi ennill sawl gwobr yn Japan.

**9 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Mawrth rhwng 17:00 a 19:00**  
**Yn dechrau 28 Ionawr 2025**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
 10 Credyd, Lefel 4  
**LIT24A5448A**

### Sut i Lywio'r Apocalyps

Ffi o £264.00 (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

#### Dr Gemma Scammell

#### Dr Michelle Deininger

Mae gan ddiwedd y byd hanes hir ac iach. Yn y modiwl ar-lein hwn, byddwn ni'n olrhain datblygiad testunau (ôl-)apocalypsaidd yn y Traddodiad Gorllewinol, o'i wreiddiau cynharaf i'r cynnydd yn ei boblogrwydd yn y cyfnod modern. Caiff myfyrwyr eu paratoi ar gyfer deall cyd-destunau diwylliannol a hanesyddol, a chael mynediad at bentwr o adnoddau hanfodol.

**9 cyfarfod wythnosol o astudio anghydamserol**  
**Yn dechrau 6 Mai 2025**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
 10 Credyd, Lefel 4  
**MED24A5375A**



Llwybr at radd *mewn*

# Newyddiaduraeth, Y Cyfryngau a Diwylliant

Darlithydd Cydlynol:  
**Dr Michelle Deininger**  
Ffôn: **029 2087 0000**  
E-bost:  
**DeiningerMJ@caerdydd.ac.uk**

Cydlynnydd Llwybrau:  
**Dr Catherine Phelps**  
Ffôn: **029 2087 0000**  
E-bost:  
**pathways@caerdydd.ac.uk**

[www.caerdydd.ac.uk/cy/part-time-courses-for-adults/pathways-to-a-degree](http://www.caerdydd.ac.uk/cy/part-time-courses-for-adults/pathways-to-a-degree)


Rydyn ni'n cynnig Llwybr a fydd yn eich galluogi i astudio tuag at y graddau hyn yn y Brifysgol:

- ▶ **Newyddiaduraeth a Chyfathrebu**
- ▶ **Y Cyfryngau a Chyfathrebu**
- ▶ **Y Cyfryngau, Newyddiaduraeth a Diwylliant**

Does dim unrhyw ofynion mynediad ffurfiol. Ar ôl i chi orffen dilyn llwybr yn llwyddiannus, mae cyfweiliad ym Mhrifysgol Caerdydd wedi'i warantu.



## Sut mae'n gweithio



\*Gallai opsiynau eraill hefyd fod ar gael yn ôl disgrisiwn y Darlithydd Cydlynol.

## Cyflwyniad i'r Cyfryngau, Newyddiaduraeth a Diwylliant



**Ffi o £528.00** (Ffi Gonsesiynol o £422.00)

### Tiwtor i'w gadarnhau

Beth mae astudio'r cyfryngau'n ei olygu? Sut ydyn ni'n astudio newyddiaduraeth? Pam fod astudio diwylliant yn bwysig? Mae'r cwrs hwn yn trin a thrafod meysydd allweddol o'r cyfryngau modern a hanes cynhyrchu'r cyfryngau a newyddion. Y cwrs hwn yw modiwl craidd 20 credyd y Llwybr at Radd yn y Cyfryngau.

### 12 cyfarfod wythnosol

**Nos Fercher rhwng 18:30 a 21:00 yn ogystal â 2 ysgol dydd Sadwrn Yn dechrau 25 Medi 2024**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
20 Credyd, Lefel 4  
**MED24A5316A**



## Byd Sinema



**Ffi o £264.00** (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

### Suzie Good

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar fyd cyfoethog y sinema, gan ystyried materion technolegol, cysyniadol, damcaniaethol ac esthetig allweddol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r ffilmiau eu hunain, y cwmnïau sy'n eu cynhyrchu, yr arian sy'n mynd iddyn nhw a'r cynulleidfaoedd sy'n gwirioni amyn nhw, ac ambell waith yn eu casáu.

### 9 cyfarfod wythnosol

**Dydd Mawrth rhwng 17:00 a 19:00 Yn dechrau 28 Ionawr 2025**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
10 Credyd, Lefel 4  
**MED24A5310A**

## Hanfodion Iaith



**Ffi o £264.00** (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

### Suzie Good

Bydd y modiwl hwn yn cyflwyno myfyrwyr i rai o'r cwestiynau mawr dan sylw wrth astudio iaith. Beth yw iaith? Sut mae plant yn dysgu iaith? Ydy anifeiliaid yn defnyddio iaith? Byddwn yn ymchwilio i'r cwestiynau hyn a mwy er mwyn deall gwerth a phwysigrwydd astudio iaith yn y byd modern.

### 9 cyfarfod wythnosol

**Nos Fercher rhwng 18:00 a 20:00 Yn dechrau 29 Ionawr 2025**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
10 Credyd, Lefel 4  
**ENG24A5313A**

## Propaganda a Pherswâd



**Ffi o £264.00** (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

### Dr Dafina Paca

'Rhyfel yw Heddwch, Caethwasiaeth yw Rhyddid, Cryfder yw Anwybodaeth'. Mae'r slogan eiconig o 1984 gan Orwell yn crisialu'r ffordd y mae propaganda yn aml yn gwrth-ddweud ein dealltwriaeth o 'wirionedd'. Mae'r modiwl hwn yn edrych ar iaith ac eiconograffeg propaganda, cynnydd cyfathrebu torfol, a sut mae dealltwriaeth yn cael ei ffurfio gan iaith berswâd.

### 9 cyfarfod wythnosol

**Nos Iau rhwng 19:00 a 21:00 Yn dechrau 30 Ionawr 2025**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
10 Credyd, Lefel 4  
**MED24A5304A**

## Sut i Lywio'r Apocalyps



**Ffi o £264.00** (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

### Dr Gemma Scammell

### Dr Michelle Deininger

Mae gan ddiwedd y byd hanes hir ac iach. Yn y modiwl ar-lein hwn, byddwn ni'n olrhain datblygiad testunau (ôl-)apocalyptaid yn y Traddodiad Gorllewinol, o'i wreiddiau cynharaf i'r cynnydd yn ei boblogrwydd yn y cyfnod modern. Caiff myfyrwyr eu paratoi ar gyfer deall cyd-destunau diwyllianol a hanesyddol, a chael mynediad at bentwr o adnoddau hanfodol.

**9 cyfarfod wythnosol o astudio anghydamserol Yn dechrau 6 Mai 2025**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
10 Credyd, Lefel 4  
**MED24A5375A**

## Y Gymdeithas Ddigidol



**Ffi o £196.00** (Ffi Gonsesiynol o £157.00)


### Cate Hopkins

Mae'r modiwl hwn yn trin a thrafod sut mae technolegau digidol yn trawsnewid bywyd cymdeithasol, diwylliant, gwleidyddiaeth a'r economi. Mae datblygiad technolegau newydd, megis y cyfryngau cymdeithasol, algorithmau, deallusrwydd artifffisial ac economïau plattfformau, yn codi cwestiynau cymdeithasegol dwfn ynghylch hunaniaeth, cymuned, anghydraddoldeb, gwaith, llywodraethiant a chyd-berthnasau dynol. Nod y modiwl hwn yw darparu fframwaith cymdeithasegol ar gyfer mynd i'r afael â materion polisi sy'n ymwneud â chyfiawnder, hawliau a budd y cyhoedd, a hynny mewn oes sy'n gynyddol seiliedig ar dechnoleg. Ar ôl cwblhau'r modiwl, bydd y myfyrwyr yn gallu gwerthuso effeithiau technolegol o safbwynt cymdeithasegol yn haws.

### 10 cyfarfod wythnosol

**Dydd Llun rhwng 17:00 a 19:00 Yn dechrau 14 Ebrill 2025**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
10 Credyd, Lefel 4  
**SOC24A5572A**



# Athroniaeth

## Cyflwyno Athroniaeth Foesol

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Dr Clea Rees

Beth sy'n gwneud gweithred yn gywir? Sut y dylai rhywun fyw? Pa fath o gymeriad y dylai rhywun fod? Sut mae moesoldeb unigol a chyfiawnder cymdeithasol yn gysylltiedig? Mae'r cwrs hwn yn cyflwyno myfyrwyr i amrywiaeth o bynciau mewn moeseg ddamcaniaethol a chymhwysol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar syniadau o'r traddodiad dadansoddol gorllewinol. Does dim angen unrhyw wybodaeth flaenorol am athroniaeth.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Llun rhwng 14:00 a 16:00**  
**Yn dechrau 30 Medi 2024**

Adeilad John Percival,  
Rhodfa Colum, Caerdydd  
10 Credyd, Lefel 4  
**PHI24A3250A**

## Y Meddwl Ymchwilgar: Cyflwyniad i Athroniaeth

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Dr Julian Ryall

Mae athroniaeth yn ein dysgu sut i gwestiynu'r cyfarwydd, herio'r confensiynol, a deall y byd o'n cwmpas yn well. Gan ddefnyddio ymagwedd thematig, bydd y cwrs hwn yn ystyried rhai o'r prif gwestiynau ym maes athroniaeth: celf a chymdeithas; gwybodaeth ac amheuaeth; canfyddiad; realaeth a gwrthrychedd gwyddonol; iaith a meddwl; gwerthoedd a chyfrifoldebau; bodolaeth a Duw. Does dim angen unrhyw wybodaeth flaenorol am athroniaeth.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Iau rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 3 Hydref 2024**

Adeilad John Percival,  
Rhodfa Colum, Caerdydd  
10 Credyd, Lefel 4  
**PHI24A5161A**

## Hanfodion Athroniaeth

Ffi o £264.00 (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

### Dr Clea Rees

Beth yw ystyr bywyd? Beth sydd mor wael am farwolaeth? Ydych chi'n rhydd i gymryd y dosbarth hwn, neu a gafodd eich dewis ei bennu cyn eich geni hyd yn oed? Roedd Socrates yn honni mai dim ond bywyd a archwiliwyd oedd yn werth ei fyw. Ar y modiwl hwn, byddwn yn dechrau ar daith athronyddol fydd yn ein galluogi i ddechrau edrych ar ein bywydau a chwestiynu ein rhagdybiaethau. Does dim angen unrhyw wybodaeth flaenorol.

**9 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Lun rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 27 Ionawr 2025**

Adeilad John Percival,  
Rhodfa Colum, Caerdydd  
10 Credyd, Lefel 4  
**PHI24A5311A**

## Problemau Craidd Athroniaeth y Gorllewin

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Dr Julian Ryall

A oedd dechreuad mewn amser gan y byd, neu a yw'n ddiderfyn? A oes modd i ddeallusrwydd artifisial fod yn hunanymwybodol? Mae'r cwrs hwn yn ymdrin â rhai o'r problemau craidd athroniaeth ac atebion posibl, wrth gyfoethogi ein dealltwriaeth o'n hunain a'r byd Rydyn ni'n byw ynddo. Does dim angen unrhyw wybodaeth flaenorol am athroniaeth.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Iau rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 30 Ionawr 2025**

Adeilad John Percival,  
Rhodfa Colum, Caerdydd  
10 Credyd, Lefel 4  
**PHI24A5306A**

## Cyflwyniad i Athroniaeth y Meddwl

Ffi o £264.00 (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

### Dr Clea Rees

Ydy robot yn gallu teimlo poen? Allech chi oroesi marwolaeth corfforol? Ydy peiriant yn deall eich meddwl yn well na chi? Beth yw ewyllys rydd ac oes gennych chi ewyllys rydd? Bydd y modiwl hwn yn cyflwyno detholiad o gwestiynau athronyddol allweddol ynghylch y meddwl, rhyddid a hunaniaeth, gan dynnu ar naratif ffuglennol a ffeithiol i amlygu trafodaethau o destunau amrywiol. Does dim angen unrhyw wybodaeth flaenorol am athroniaeth.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Lun rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 30 Medi 2024**

Adeilad John Percival,  
Rhodfa Colum, Caerdydd  
10 Credyd, Lefel 4  
**PHI24A5186A**

## Cyflwyno Biofoeseg

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Dr Clea Rees

Ydy hi'n bosib i rywun gael pump o rieni? A ddylai ein disgynyddion fod yn anddynol? Ydy 'gadael rhywun i farw' yn well nag ewthanasia? Ydy niwroamrywiaeth yn cael ei gamddosbarthu fel anabled? Beth sy'n gwahaniaethu peidio cydymffurfio a gwallgofrwydd? Sut mae gormes yn dylanwadu ar brofiadau o salwch meddwl? Mae'r modiwl hwn yn edrych ar heriau moesegol mewn meddygaeth, geneteg a niwrowyddoniaeth. Does dim angen unrhyw wybodaeth flaenorol am athroniaeth.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Llun rhwng 14:00 a 16:00**  
**Yn dechrau 27 Ionawr 2025**

Adeilad John Percival,  
Rhodfa Colum, Caerdydd  
10 Credyd, Lefel 4  
**PHI24A5583A**





## Archaeoleg a Chelf

### Cyflwyniad i Archaeoleg Prydain

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Dr Tudur Davies

O filas a thai crwn i gestyll mawreddog yr Oesoedd Canol, mae gan Brydain archeoleg gyfoethog. Gan ddechrau gyda gwawr y cyfnod Rhufeinig ym Mhrydain, awn ymlaen i edrych ar yr Eingl-Sacsoniaid, y Celtiaid, y Llychlynwyr a'r Normaniaid, cyn ystyried archaeoleg grym, hunaniaeth, economi a marwolaeth ganoloesol hyd at ddiwedd cyfnod yr oesoedd canol.

#### 10 cyfarfod wythnosol

**Nos Fercher rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 2 Hydref 2024**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
10 Credyd, Lefel 4  
**ARC24A5553A**

### Cyflwyniad i Hanes Cymdeithasol Celf: 1700au-1830au

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Dr Angela Morelli

Sut allwn ni astudio celf er mwyn cael gwybod am fywydau pobl, llefydd a'r gymdeithas? Wrth drin a thrafod printiau, paentiadau a cherfluniau o'r 1700au hyd at y 1830au, byddwn ni'n treiddio'n ddwfn i gyfnod o newid mawr yn cwmpasu Oes yr Ymoleuo, y Chwyldro Diwydiannol, Y Chwyldro Ffrengig, ac ymdrechion i sicrhau diwygio cymdeithasol. Bydd ein harchwiliad yn cynnwys artistiaid fel Hogarth, David, a Goya, mudiadau fel Rhamantiaeth, a chynrychioliadau o arswyd Gothig.

#### 10 cyfarfod wythnosol

**Dydd Gwener rhwng 11:00 a 13:00**  
**Yn dechrau 4 Hydref 2024**

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd  
10 Credyd, Lefel 4  
**AAA24A5578A**

### Celf Gwlad Groeg: Taith Gelfyddydol a Diwyllianol o'r Cyfnod Cynhanes i'r Oes Fysantaidd

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Dr Christina Hatzimichael Whitley

Wrth drin a thrafod cerflunio, pensaernïaeth, crochenwaith wedi'i baentio, a murluniau, byddwn ni'n treiddio'n ddwfn i gelf a diwylliant Gwlad Groeg o'r Oes Efydd i'r cyfnod Bysantaidd (2000 CC - 1500 OC). Gan osod datblygiadau artistig yn eu cyd-destun cymdeithasol, gwleidyddol a hanesyddol a thrafod safleoedd gan gynnwys Athen, Olympia, Delphi a Constantinople, byddwn yn ystyried themâu yn cynnwys rhywedd, rhywioldeb, claddu, crefydd, tirwedd a chefn gwlad.

#### 10 cyfarfod wythnosol

**Dydd Mercher rhwng 17:00 a 19:00**  
**Yn dechrau 22 Ionawr 2025**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
10 Credyd, Lefel 4  
**ARC24A5568A**

## Llên gwerin

### Dewiniaid a Gwrachod: Myrddin a Morgan

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Dr Juliette Wood

Ers yr Oesoedd Canol, mae dewiniaid a gwrachod fel Myrddin a Morgan wedi bod yn gymeriadau poblogaidd, ond paradocsiaidd. Byddwn yn ystyried portreadau o Myrddin a Morgan mewn ffilm, diwylliant, cartwnau, sioeau cerdd, ac mewn ffigurau ffantasi tywyllach. Wrth chwilio am y Myrddin a'r Morgan 'dilys' byddwn yn edrych ar lenyddiaeth, llên gwerin, archaeoleg a chelf yn rhan o'n cwest.

#### 10 cyfarfod wythnosol

**Nos Iau rhwng 18:00 a 20:00**  
**Yn dechrau 3 Hydref 2024**

Adeilad John Percival,  
Rhodfa Colum, Caerdydd  
10 Credyd, Lefel 4  
**FOL24A5524A**



## Bydoedd Neo-Baganaid: O'r Hen Greodau i Fudiadau Modern

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Dr Juliette Wood

Mae syniadau poblogaidd am baganiaeth yn creu delweddau o ddefodau hynafol a chredoau egsotig, ond mae paganiaeth hefyd yn dreftadaeth gyfoethog sy'n dylanwadu ar artistiaid, awduron, athronwyr ac ysgolheigion. Byddwn yn trafod paganiaeth glasurol Groeg-Rhufain, ei datblygiad canoloesol ac yng nghyfnod y Dadeni, a'i hadfywiad, o Neo-baganiaeth ddiweddedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at gysylltiadau modern â chrefydd hynafol, yr ocwlt, hud Celtaidd ac ecolog. Sut mae agweddau at baganiaeth wedi newid dros amser?

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Iau rhwng 18:00 a 20:00**  
**Yn dechrau 23 Ionawr 2025**

Adeilad John Percival,  
Rhodfa Colum, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4  
**FOL24A5525A**

## Astudiaethau Hanesyddol

### "Ar gyfer Cymru, Gweler Lloegr"? Hanes a Hunaniaeth Genedlaethol yng Nghymru'r 19eg Ganrif

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Dr Elizabeth Jones

Sut y daeth Cymru i fod y wlad rydyn ni'n ei hadnabod heddiw? Byddwn ni'n trin a thrafod datblygiadau diwydiannol ac amaethyddol a drawsnewidiodd economi, tirwedd, cymdeithas, gwleidyddiaeth a diwylliant Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ar hyd y ffordd, byddwn yn edrych ar fywydau'r bobl, gan roi sylw i alwedigaethau, tai, addysg, crefydd a hamdden, ac yn darganfod sut mae newidiadau wedi effeithio ar bob agwedd ar fywyd a hunaniaeth Cymru.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Fawrth rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 1 Hydref 2024**

Adeilad John Percival,  
Rhodfa Colum, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4  
**HIS24A5552A**

## Seren Goch yn Codi: Yr Undeb Sofietaidd, 1917-45

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Dr Ben Curtis

Roedd Chwyldro Rwsia (1917) a sefydlu'r Undeb Sofietaidd (USSR) yn ddigwyddiadau pwysig iawn. Mae'r cwrs hwn yn ymchwilio i gefndir y Chwyldro, a hanes drammatig yr Undeb Sofietaidd o'i ffurfio, trwy'r Ail Ryfel Byd ac ymlaen i'r Rhyfel Oer. Byddwn yn edrych ar themâu a dadleuon allweddol ag iddyn nhw berthnasedd parhaus yn amgylchiadau gwleidyddol ansicr ein hoes.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Iau rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 3 Hydref 2024**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**

10 Credyd, Lefel 4  
**HIS24A5239A**



## Hanes pwy? Treftadaeth, Amgueddfeydd a'r Gorffennol Byd-eang Heddiw

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Tiwtor i'w gadarnhau

Pwy sy'n penderfynu sut mae'r gorffennol yn cael ei gyflwyno? Pam ydyn ni'n ei gyflwyno mewn amrywiaeth o ffyrdd? Ffocws y cwrs hwn yw treftadaeth a'n cyfrifoldeb dros fersiynau o'r gorffennol sy'n ein hamgylchynu. Byddwn yn ystyried y ffordd y caiff gwrthrychau a safleoedd eu cyflwyno, rôl treftadaeth mewn cymunedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, a dadleuon ynghylch dad-drefedigaethu a threftadaeth yn yr oes ddigidol.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Fawrth rhwng 18:00 a 20:00**  
**Yn dechrau 28 Ionawr 2025**

Adeilad John Percival,  
Rhodfa Colum, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4  
**HIS24A5570A**



## Caerdydd, Metropolis Cymru: Pobl, Lleoedd, Hanes

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

### Dr Elizabeth Jones

O'r fryngaer yng Nghaerau-Elái i oresgyniadau Rhufeinig a Normanaidd ac adeiladu Castell Caerdydd, ac ymlaen at y Diwygiad, Rhyfel Cartref, glo a diwylliant, mae'r cwrs hwn yn ymchwilio i dwf a datblygiad Caerdydd. Byddwn yn edrych ar yr adeiladau a'r bobl sydd wedi llunio'r ddinas ac yn trafod sut mae ei hunaniaeth wedi newid mewn ymateb i ddigwyddiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Nos Iau rhwng 18:00 a 20:00**  
**Yn dechrau 1 Mai 2025**

Adeilad John Percival,  
 Rhodfa Colum, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4  
**HIS24A5569A**



Ffotograffiaeth: Stephen Parker

## Hanes Dylunio Gerddi

### Yr Artist o Arddwr: Cymunedau, Gerddi a Diwylliant Bohemaidd

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Stephen Parker

Yn yr oes fodern, enillodd yr 'artist-arddwr' ei blwyf. Daeth peintwyr, ffotograffwyr, awduron a cherflunwyr yn arddwyr. Roedd eu gerddi yn cyflawni swyddogaeth symbolaidd ac yn cynnig sylwebaeth ar agweddau esthetig a chymdeithasol. Mae'r cwrs hwn yn ystyried ffenomen yr artist-arddwr, gan ganolbwyntio ar arddull a chreadigaeth a defnydd artistiaid o erddi a phlanhigion i arbrofi gyda lliw, themâu ac emosiynau mewn dylunio, celf ac ysgrifennu.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Mercher rhwng 10:00 a 12:00**  
**Yn dechrau 2 Hydref 2024**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
 10 Credyd, Lefel 4  
**HIS24A5564A**

Caiff cyrsiau newydd eu hychwanegu at ein gwefan drwy gydol y flwyddyn.

### Yr Ardd Wyllt - ydy hi mor newydd?

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Stephen Parker

Yn yr 21ain ganrif, lle mae newid yn yr hinsawdd, planhigion newydd a heriau dylunio yn dod i'r amlwg, gwelir bod deialog newydd wedi'i chreu ynghylch creu a chynnal gerddi. Byddwn yn ystyried syniad yr ardd wyllt, o Robinson a Jekyll a fyddai'n eiriol dros blannu naturiol, hyd at ddylanwad moderniaeth a chelfyddyd haniaethol yn America ac Ewrop, cyn troi at greu gerddi cyfoes gan eiriolwyr y 'Don Iseldiraidd' neu'r 'Mudiad Lluosflwydd Newydd'.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Mercher rhwng 10:00 a 12:00**  
**Yn dechrau 22 Ionawr 2025**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
 10 Credyd, Lefel 4  
**HIS24A5565A**



Ffotograffiaeth: Stephen Parker

### Penseiri a Gerddi: Undod, Swyddogaeth, Symlwydd a Maint

Ffi o £196.00 (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Stephen Parker

Mae'r tŷ bob amser yn ganolog i weledigaeth y pensaer, ond mae'r ardd neu'r dirwedd o'i amgylch yn ehangu'r weledigaeth honno. Drwy ystyried gerddi wedi'u creu gan benseiri, byddwn yn edrych ar erddi trefol, gerddi fertigol, toeau, llwybrau cerdded, pontydd, a gweledigaethau o dirweddau parciau a gwledig. Ochr yn ochr â gerddi Americanaidd ac Ewropeaidd, bydd ein taith yn cynnwys gerddi arloesol yn Japan, Singapore a Tsieina.

**10 cyfarfod wythnosol**  
**Dydd Mercher rhwng 10:00 a 12:00**  
**Yn dechrau 30 Ebrill 2025**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**  
 10 Credyd, Lefel 4  
**HIS24A5566A**





## Ieithoedd Hynafol

### Cyflwyno Lladin

**Ffi o £196.00** (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Tiwtor i'w gadarnhau

Gawsoch chi'r awydd erioed i ddarllen gweithiau awduron Rhufeinig a chanoloesol yn eu hiaith wreiddiol? Neu ddeall cyfieithiadau Lladin o glasuron modern, fel *Ursus Nomine Paddington*? Ar y cwrs hwn, ar gyfer dechreuwyr pur, cewch gymryd y camau cyntaf at ddarllen a chyfieithu Lladin. Byddwch yn dysgu gramadeg, geirfa, a sut i ddarllen a chyfieithu brawddegau syml, gan feithrin sgiliau i alluogi astudiaeth bellach.

#### 8 cyfarfod wythnosol

**Nos Fawrth rhwng 18:00 a 20:00**

**Yn dechrau 28 Ionawr 2025**

**Yn ogystal â 4 awr anghydamserol ar-lein**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**

10 Credyd, Lefel 4

**HIS24A5571A**

### Cyflwyno Groeg Hynafol

**Ffi o £196.00** (Ffi Gonsesiynol o £157.00)

#### Tiwtor i'w gadarnhau

Gawsoch chi'r awydd erioed i ddarllen gweithiau awduron, haneswyr a meddylwyr Hen Wlad Groeg yn eu hiaith wreiddiol? Yn y cwrs hwn ar gyfer dechreuwyr llwyr, byddwch chi'n cymryd y camau cyntaf, gan dreiddio'n ddwfn i wyddor, geirfa a gramadeg tafodiaith yr Attic. Bydd y cwrs yn cynnig sylfaen gadarn i chi ar gyfer astudio'r iaith yr oedd awduron fel Thucydides a Plato yn ei defnyddio. Byddwch yn dysgu darllen a chyfieithu brawddegau syml, gan feithrin sgiliau i alluogi astudiaeth bellach.

#### 8 cyfarfod wythnosol

**Nos Fawrth rhwng 18:00 a 20:00**

**Yn dechrau 29 Ebrill 2025**

**Yn ogystal â 4 awr anghydamserol ar-lein**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**

10 Credyd, Lefel 4

**HIS24A5551A**

## Cerddoriaeth

### Gweithdy Cyfansoddi Cerddoriaeth Ar-lein

**Ffi o £442.00** (Ffi Gonsesiynol o £398.00)

#### Dr Gareth Churchill

Mae'r cwrs hwn yn cynnig cymorth personol o bell gan diwtoriaid (dros e-bost fel arfer) i gyfansoddwyr newydd a phrofiadol sy'n dymuno ymgymryd â'u prosiectau eu hunain. Bydd natur yr astudio wedi'i theilwra i anghenion unigol y myfyrwyr. Mae'r cwrs yn bennaf ar gyfer myfyrwyr sy'n cyfansoddi cerddoriaeth wedi'i hysbrydoli gan arddull glasurol celfyddyd Orllewinol, mewn cyfansoddiadau offerynnol a/neu leisiol.

**Mae cofrestru ymlaen llaw, ynghyd â datganiad o'ch diddordebau, yn hanfodol.**

#### Yn dechrau 30 Medi 2024

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**

10 Credyd, Lefel 4

**MPR24A4549A**

#### Yn dechrau 20 Ionawr 2025

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**

10 Credyd, Lefel 4

**MPR24A4549B**

**Ymrestrwch nawr!**





Llwybr at radd *mewn*

# Cerddoriaeth

Darlithydd Cydlynol:

**Dr Michelle Deininger**

Ffôn: **029 2087 0000**

E-bost:

**DeiningerMJ@caerdydd.ac.uk**

Cydlynnydd Llwybrau:

**Dr Catherine Phelps**

Ffôn: **029 2087 0000**

E-bost:

**pathways@caerdydd.ac.uk**

[www.caerdydd.ac.uk/cy/part-time-courses-for-adults/pathways-to-a-degree](http://www.caerdydd.ac.uk/cy/part-time-courses-for-adults/pathways-to-a-degree)



Rhaid i ymgeiswyr fod yn lled gyfarwydd â Graddau theori cerddoriaeth 1-2. Os yw myfyrwyr yn dymuno canolbwyntio ar berfformio unigol neu ensemble yn y modiwl Cerddoriaeth Greadigol, dyma argymhell yn gryf eu bod wedi cyflawni Graddau Ymarferol 5-6 cyn gwneud cais, neu'n dangos gallu i berfformio

cerddoriaeth sy'n gymesur â'r lefel hon fel sydd wedi'i amlinellu yn neilliannau dysgu arholiadau cerddoriaeth ymarferol Graddau 5-6.

Ar ôl astudio'r Llwybr byddwch yn gallu gwneud cais i astudio'r graddau canlynol ym Mhrifysgol Caerdydd:

▶ **Cerddoriaeth (BMus) W302**

▶ **Cerddoriaeth gyda Blwyddyn o Astudio Dramor (BMus) G85D**

▶ **Cerddoriaeth (BA) W300**



## Iaith Cerddoriaeth

**Ffi o £393.00** (Ffi Gonsesiynol o £314.00)

### Tiwtor i'w gadarnhau

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyflwyniad i theori cerddoriaeth. Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o nodiant cerddorol yn ogystal â sut mae cerddoriaeth Orllewinol yn cael ei llunio, gan gynnwys astudio traw, rhythm, mydr a harmoni. Bydd cyfle i gymhwyso'r wybodaeth hon i arddulliau a genres eraill o gerddoriaeth, gan gynnwys cerddoriaeth boblogaidd a jazz.

### Yn dechrau 1 Hydref 2024

#### Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein

20 Credyd, Lefel 4

**MUS24A5575A**

## Ymchwilio i Gerddoriaeth: Hanes a Diwylliant

**Ffi o £393.00** (Ffi Gonsesiynol o £314.00)

### Tiwtor i'w gadarnhau

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno dysgwyr i ddatblygiad cerddoriaeth yn ei chyddestunau hanesyddol a diwylliannol ac yn edrych ar y ffyrdd gwahanol y mae modd mynd ati i'w ystyried a'i deall. Mae'n ystyried elfennau sylfaenol cerddoriaeth (gan gynnwys alaw, harmoni, gwead a dynameg) a sut y mae modd defnyddio'r rhain, ynghyd â dulliau a thechnegau eraill, i ddarllen, ysgrifennu a siarad am amrywiaeth eang o wahanol arddulliau a genres.

### Yn dechrau 3 Hydref 2024

#### Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein

20 Credyd, Lefel 4

**MUS24A5576A**

## Cerddoriaeth Greadigol

**Ffi o £393.00** (Ffi Gonsesiynol o £314.00)

### Tiwtor i'w gadarnhau

Bydd dysgwyr yn cael y cyfle i wella ar sgiliau sydd eisoes ganddyn nhw, ac i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth trwy gyfathrebu cerddoriaeth. Yn ystod y digwyddiadau 'ysgol undydd', bydd gweithdai rhyngweithiol yn cynnwys trafodaeth ar faterion yn ymwneud â cherddoriaeth greadigol, sy'n cynnwys gweithgareddau perfformio a chyfansoddi fel ei gilydd. Byddan nhw hefyd yn rhoi cipolwg i ddysgwyr ar y cysylltiadau rhwng y ddwy ffurf ar gelfyddyd ac ar y ffyrdd y gall cerddorion ddysgu oddi wrth ei gilydd.

### 3 ysgol undydd Dyddiadau i'w cadarnhau

Dysgu Gydol Oes,  
50-51 Plas y Parc, Caerdydd

#### Yn ogystal â thiworialau ar-lein

20 Credyd, Lefel 4

**MUS24A5577A**



**Ymrestrwch  
nawr!**



Llwybr at radd *mewn*

# Hanes, Archaeoleg a Chrefydd

Exploring the Past Coordinator

**Dr Paul Webster**

Ffôn: **029 2087 5610**

E-bost:

**WebsterP@caerdydd.ac.uk**

Cydlynnydd Llwybrau:

**Dr Catherine Phelps**

Ffôn: **029 2087 0000**

E-bost:

**pathways@caerdydd.ac.uk**

[www.caerdydd.ac.uk/cy/part-time-courses-for-adults/pathways-to-a-degree](http://www.caerdydd.ac.uk/cy/part-time-courses-for-adults/pathways-to-a-degree)



Mae llwybr Archwilio'r Gorffennol yn cynnig llwybr at astudio graddau israddedig ym Mhrifysgol Caerdydd:

- ▶ **Archaeoleg**
- ▶ **Crefydd**
- ▶ **Hanes**
- ▶ **Hanes yr Henfyd**

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol. Ar ôl i chi orffen dilyn llwybr Archwilio'r Gorffennol yn llwyddiannus, mae cyfweiliad ym Mhrifysgol Caerdydd wedi'i warantu.

# Sut mae'n gweithio

Mae'r **Llwybr at Archwilio'r Gorffennol** yn cynnwys chwe modiwl 10 credyd, gan gynnwys:-

O leiaf... UN modiwl craidd 10 credyd o Grŵp 1

A PHUM modiwl opsiwn 10 credyd o Grŵp 2

NEU BEDWAR modiwl opsiwn 10 credyd o Grŵp 2 ynghyd â modiwl 10 credyd priodol o'r prospectws\* ehangach.

## Grŵp 1: Modiwlau craidd

### Archwilio'r Gorffennol: Beth yw Hanes?

Ffi o £264.00 (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

#### Dr Elizabeth Jones

Beth yw hanes? Sut caiff hanes ei gyflwyno? Sut ydyn ni'n dysgu am hanes? Pam ydyn ni'n dadlau am y gorffennol a'i ddyllanwad ar ein bywydau? Bydd y modiwl hwn yn archwilio rôl yr hanesydd, o gyflwyno hanes yn y byd o'n cwmpas, i hanes gwleidyddiaeth, cenedloedd, cymdeithas a diwyllianau, ac agweddau byd-eang ac amrywiol yr oes sydd ohoni.

9 cyfarfod wythnosol  
Nos Iau rhwng 18:00 a 20:00  
Yn dechrau 26 Medi 2024

Adeilad John Percival,  
Rhodfa Colum, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4

HIS24A5520A



### Archwilio Crefyddau'r Byd

Ffi o £264.00 (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

#### Dr Gina Bevan

Beth yw crefydd? Sut ydyn ni'n ei hastudio? Byddwn ni'n archwilio crefyddau o bob rhan o'r byd, gan gyflwyno gwahanol grefyddau a thraddodiadau crefyddol byd-eang amrywiol, a gofyn cwestiynau ehangach ynghylch testunau, arferion, awdurdod a hunaniaeth. Byddwn yn ystyried y materion sy'n wynebu crefyddau heddiw, megis mudo, technoleg, seciwlaireiddio ac ymddangosiad 'crefyddau newydd'.

9 cyfarfod wythnosol  
Nos Fawrth rhwng 19:00 a 21:00  
Yn dechrau 1 Hydref 2024

Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein

10 Credyd, Lefel 4  
REL24A5484A

### Archwilio'r Gorffennol: Archaeoleg

Ffi o £264.00 (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

#### Dr Christina Hatzimichael Whitley

Mae archeolegwyr yn gwneud llawer mwy na chloddio, ond beth yw archaeoleg a beth mae archeolegwyr yn ei wneud? Mae'r cwrs hwn yn cyflwyno dulliau a thechnegau, gan ymchwilio i ailadeiladu tirwedd ac amaethyddiaeth, technoleg, masnach, diet, arferion claddu, credoau, hunaniaethau diwyllianol, a bywydau unigolion a chymunedau'r gorffennol.

9 cyfarfod wythnosol  
Dydd Llun rhwng 17:00 a 19:00  
Yn dechrau 20 Ionawr 2025

Adeilad John Percival,  
Rhodfa Colum, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4  
HIS24A4599A



## Grŵp 2: Modiwlau Dewisol

### Aberthu i'r Duwiau: Chwedlau, Archaeoleg, a Chrefydd y Groegiaid Hynafol

**Ffi o £264.00** (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

#### Dr Christina Hatzimichael Whitley

Wrth drin a thrafod datblygiad, parhad a hyd arferion a chredoau crefyddol y Groegiaid hynafol o'r cyfnod cynhanes i'r cyfnod Helenistaidd (c. 3200-c.32 CC), byddwn ni'n ymchwilio i'r berthynas rhwng y chwedlau, y dadleuon a'r dystiolaeth a geir mewn ffynonellau llenyddol ac archeolegol. Bydd ein taith yn cynnwys pensaernïaeth, claddedigaethau, a chelf fel peintio waliau, crochenwaith, seliau, ffigurynnau a cherfluniau.

#### 9 cyfarfod wythnosol

**Dydd Llun rhwng 17:00 a 19:00**  
**Yn dechrau 7 Hydref 2024**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**

10 Credyd, Lefel 4

**ARC24A5555A**

### Pobl, Hunaniaeth a Chymdeithas: Creu Prydain Fodern

**Ffi o £264.00** (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

#### Dr Elizabeth Jones

O ble daw ein hunaniaethau? Beth yw eu hanes? Sut y datblygodd cymdeithas ym Mhrydain i fod yn gymunedau amrywiol yr oes sydd ohoni? Byddwn yn archwilio syniadau hanes y Pedair Cenedl, cyn ymchwilio i ddylanwad Ymerodraeth, caethwasiaeth, canfyddiadau o ddosbarth, ac effaith Rhyfeloedd Byd. Byddwn yn ystyried canfyddiadau o hil, rhywedd a rhywioldeb, gan ddatgelu lleisiau hanesyddol sydd heb eu clywed hyd yn hyn.

#### 9 cyfarfod wythnosol

**Nos Iau rhwng 18:00 a 20:00**  
**Yn dechrau 30 Ionawr 2025**

Adeilad John Percival,  
Rhodfa Colum, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4

**HIS24A5521A**

*Dysgwch gyda ni a...*  
**defnyddiwch ein  
llyfrgelloedd  
tra arbenigol**



### Llenyddiaeth a Chymdeithas Hynafol

**Ffi o £264.00** (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

#### Dr Gina Bevan

Beth oedd yn ei olygu i fod yn Roegaid neu'n Rhufeinig? Beth mae astudio testunau hynafol yn ei ddatgelu am agweddau at ryfel, cariad, teulu a rhywedd ac am leisiau pobl ar y cyrion? Gan ddefnyddio testunau sy'n amrywio o farddoniaeth epig i gomedï, a chan gynnwys gweithiau gan Homer, Sophocles, Ovid, a Virgil, byddwn yn archwilio cymdeithasau fu'n creu straeon sy'n parhau i swyno cynulleidfaoedd heddiw.

#### 9 cyfarfod wythnosol

**Nos Fercher rhwng 19:00 a 21:00**  
**Yn dechrau 5 Chwefror 2025**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**

10 Credyd, Lefel 4

**LIT24A5501A**

### Cyrff sy'n Syfrdanu a Chredoau Anhygoel, 1500-1700

**Ffi o £264.00** (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

#### Dr Rachel Bowen

Er y gall credoau o gyfnodau cynharach ymddangos yn gynnyrch 'anwybodaeth' neu 'ofergoeliaeth', roedd dealltwriaeth fodern gynnar o'r corff dynol yn aml yn seiliedig ar astudio gofalus a systemau meddwl cymhleth, gan ddweud wrthyn ni sut yr oedd pobl yn gweld y byd a'u lle ynddo. Byddwn yn archwilio credoau am y corff, 1500-1700, gan gynnwys agweddau at iachau, meddygaeth, y nefoedd, uffern, angenfilod, ysbrydion, gwrachod a phroffwydoliaeth.

#### 7 cyfarfod wythnosol

**Nos Lun rhwng 18:00 a 20:00**  
**Yn dechrau 17 Chwefror 2025**  
**Yn ogystal â 4 awr anghydamserol ar-lein**

**Caiff y cwrs hwn ei addysgu ar-lein**

10 Credyd, Lefel 4

**HIS24A5489A**

### Hanesion Gothig: Yr Oesoedd Canol, Y Dadeni a Thu Hwnt

**Ffi o £264.00** (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

#### Dr Juliette Wood

Boed yn angenfilod clasurol, ffantasiau trefol, 'nosweithiau tywyll a stormus', neu'r fampirod, ysbrydion a'r dihirod sy'n mynd ar drywydd y diniwed, mae adroddiadau dychmygol o ddigwyddiadau hanesyddol, ynghyd â darnau gothig blodeuog sy'n codi arswyd, oll yn themâu poblogaidd mewn diwylliant cyfoes. Byddwn yn edrych ar ddatblygiad y cyfuniad hwn o'r real a'r rhyfeddol, gan ddefnyddio enghreifftiau o lenyddiaeth, llên gwerin, archaeoleg a chelf i ddeall ffenomen Hanes Gothig.

#### 9 cyfarfod wythnosol

**Nos Iau rhwng 18:00 a 20:00**  
**Yn dechrau 1 Mai 2025**

Adeilad John Percival,  
Rhodfa Colum, Caerdydd

10 Credyd, Lefel 4

**FOL24A5554A**



“Rwy’n falch iawn o fy nghyfnod ym Mhrifysgol Caerdydd a chwblhau fy ngradd a fyddwn i byth wedi cyflawni’r dilyniant hwn heb y Llwybr.”



**Cofrestrodd Anastazia ar Lwybr Archwilio’r Gorffennol ym mis Medi 2019 pan oedd yn 21 oed a’i mab bach ond ychydig fisoedd oed.**

“

Cwblheais y rhan fwyaf o’r modiwlau gyda fy mab yn fy mreichiau! Roeddwn i’n gofalu amdano yn ystod y dydd, yn astudio pan oedd yn cysgu ac ysgrifennu traethodau gyda’r nos. Chefais i ddim y cymorth oedd ei angen arnaf pan oeddwn i yn yr ysgol ac roeddwn i’n difaru nad oedd modd i mi sefyll TGAU mewn Hanes, ond ers dilyn y Llwybr mae fy hyder a fy ngwybodaeth wedi cynyddu. Mae Dr Paul Webster wedi rhoi cymaint o gefnogaeth a dealltwriaeth i mi a byddaf

i’n ddiolchgar hyd byth am yr amser, yr egni a’r caredigrwydd y mae wedi’u rhoi i mi fel myfyriwr. Bu’n bwynt cyswllt cyntaf i fi dros y pedair blynedd diwethaf, ac allaf i ddim mynegi cymaint mae wedi fy helpu i ddatblygu’n academiaidd.

Newidiais i o’r Llwybr i gwrs BA Hanes yr Henfyd a Hanes yn 2020. Yn fy mlwyddyn gyntaf cafodd gwobr Elizabeth Thomas ei dyfarnu i mi am y perfformiad gorau yn Hanes yr Henfyd. Cwblheais fy astudiaethau ail a thrydedd flwyddyn, gan sicrhau dosbarth

cyntaf yn y ddwy flwyddyn a graddio gyda Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf yn 2023. Rwyf nawr yn astudio cwrs MA Hanes ym Mhrifysgol Caerdydd, a byddaf i’n ei gwblhau yn hydref 2024.

Roeddwn i mor falch o allu graddio gyda fy mab yn fy ngwylio. Wrth i mi astudio hwyr y nos gyda fy llyfrau hanes ar agor, a’i fwydo ar yr un pryd, roedd e wedi fy ysgogi.

Newidiodd llwybr Archwilio’r Gorffennol fy mywyd yn gyfan gwbl.

”



## Heneiddio Drwy'r Oesoedd: Bioarchaeoleg a Phobl y Gorffennol

Ffi o £264.00 (Ffi Gonsesiynol o £211.00)

### Dr Katie Faillace

